Amodau Cydnabod Safonol

HYDREF 2018

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr Amodau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu cydnabyddedig gydymffurfio â hwy.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Dyma Fersiwn 2 o'r ddogfen hon.

Dyma Fersiwn 2 o'r ddogfen hon. Fe wnaethom ddiwygio Amodau A4 a G4 sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau a chyfrinachedd deunyddiau asesu. Nodwch ein bod ar hyn o bryd yn adolygu ein Amodau Cydnabod Safonol ac felly gellir gwneud diwygiadau pellach i'r ddogfen hon.

Rydym yn adolygu ein dogfennau rheoleiddio ac yn croesawu adborth ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org

Cynnwys

Adran A – Llywodraethu 1
Adran B – Y corff dyfarnu a Cymwysterau Cymru 9
Adran C – Trydydd partïon 15
Adran D – Gofynion cyffredinol ar gyfer cymwysterau a reoleiddir 18
Adran E – Llunio a datblygu cymwysterau 24
Adran F – Darparu cymwysterau i brynwyr 34
Adran G – Gosod a chynnal yr asesiad 37
Adran H – O farcio asesiadau i gyhoeddi'r canlyniadau 44
Adran I – Apeliadau a thystysgrifau 48
Adran J – Dehongli a diffiniadau 52

Ceir penawdau pob amod isod:

A	**Rhan 1 – Y corff dyfarnu** **Llywodraethu**
A1	Addasrwydd i barhau i gael ei gydnabod
A2	Sefydliad yn yr UE neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA)
A3	Mesurau diogelwch o ran newid rheolaeth
A4	Gwrthdaro buddiannau
A5	Argaeledd adnoddau a threfniadau digonol
A6	Nodi a rheoli risgiau
A7	Rheoli digwyddiadau
A8	Camymddwyn a chamweinyddu

B	**Y corff dyfarnu a Cymwysterau Cymru**
B1	Rôl y swyddog cyfrifol
B2	Y datganiad blynyddol i Cymwysterau Cymru
B3	Hysbysu Cymwysterau Cymru am ddigwyddiadau penodol
B4	Hysbysiad i ddarparu gwybodaeth i Cymwysterau Cymru
B5	Sylwadau ar gymwysterau
B6	Cydweithredu â Cymwysterau Cymru
B7	Cydymffurfio â dogfennau rheoleiddio
B8	Cydymffurfio ag ymgymeriadau a wnaed i Cymwysterau Cymru

C	Trydydd partïon
C1	Trefniadau gyda thrydydd partïon
C2	Trefniadau gyda chanolfannau
C3	Trefniadau gyda chyhoeddwyr

D	Rhan 2 – Y cymhwyster a reoleiddir
D1	Addasrwydd cymwysterau at y diben
D2	Hygyrchedd cymwysterau
D3	Dull adolygu
D4	Ymateb i ymholiadau a gweithdrefnau cwyno
D5	Cydymffurfiaeth cymwysterau â dogfennau rheoleiddio
D6	Cydymffurfiaeth unedau a ddatblygwyd gan eraill â dogfennau rheoleiddio
D7	Rheoli'r broses o dynnu cymwysterau yn ôl
D8	Darparu gwybodaeth er mwyn helpu i ddiwallu anghenion athrawon
D9	Dyfarnu cymwysterau **Cymeradwy** y tu allan i Gymru

E	Llunio a datblygu cymwysterau
E1	Sicrhau bod gan gymwysterau amcan a'u bod yn cael eu cefnogi
E2	Gofynion o ran teitlau cymwysterau
E3	Cyhoeddi manyleb cymhwyster
E4	Sicrhau bod asesiad yn addas at y diben ac y gellir ei gynnal
E5	Sicrhau bod cymwysterau yn cydymffurfio â'r amodau
E6	Cyflwyno cymwysterau i'r Gronfa Ddata
E7	Cyfanswm Amser Cymhwyso
E8	Credyd
E9	Lefelau Cymwysterau a Chydrannau
E10	Cydnabod Dysgu Blaenorol

F	Darparu cymwysterau i brynwyr
F1	Gwybodaeth am ffioedd a nodweddion cymhwyster
F2	Pecynnu cymwysterau gyda chynhyrchion neu wasanaethau eraill
F3	Anfonebu

G	Gosod a chynnal yr asesiad
G1	Gosod yr asesiad
G2	Iaith yr asesiad
G3	Defnyddio Deunyddiau Iaith ac Ysgogi
G4	Sicrhau cyfrinachedd deunyddiau asesu, gan gynnwys cynnal digwyddiadau hyfforddi penodedig
G5	Cofrestru Dysgwyr
G6	Trefniadau ar gyfer Addasiadau Rhesymol
G7	Trefniadau ar gyfer Ystyriaeth Arbennig
G8	Cwblhau'r asesiad o dan yr amodau gofynnol
G9	Cynnal yr asesiad

H	O farcio asesiadau i gyhoeddi'r canlyniadau
H1	Marcio'r asesiad
H2	Cymedroli pan gaiff asesiad ei farcio gan ganolfan
H3	Monitro'r lefelau cyrhaeddiad penodedig gyfer cymhwyster
H4	Cymwysterau Cymru yn dyfarnu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymhwyster
H5	Rhaid i'r canlyniadau ar gyfer cymhwyster fod yn seiliedig ar ddigon o dystiolaeth
H6	Cyhoeddi canlyniadau

I	Apeliadau a thystysgrifau
I1	Proses apelio
I2	Cydymffurfio â phroses apelio a chwyno Cymwysterau Cymru
I3	Dyluniad a chynnwys tystysgrifau
I4	Cyhoeddi tystysgrifau a thystysgrifau cyfnewid

J	Dehongli a diffiniadau
J1	Dehongli a diffiniadau

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r 'Amodau Cydnabod Safonol' sy'n cynnwys yr Amodau Cydnabod Cyffredinol a gafodd eu cyhoeddi'n flaenorol gan Lywodraeth Cymru a'u trosglwyddo i Cymwysterau Cymru gyda mân newidiadau a diweddariadau. Gwnaed y newidiadau er mwyn i Cymwysterau Cymru allu cymhwyso'r Amodau Cydnabod at gyrff dyfarnu cydnabyddedig fel amodau cydnabod safonol o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ac fel y'u cymhwysir gan Orchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif. 2 a Darpariaethau Trosiannol) 2015. Gwnaed y newidiadau hyn gan Lywodraeth Cymru ar ran Cymwysterau Cymru. Gwnaed newidiadau ychwanegol gan Cymwysterau Cymru yn sgil y penderfyniad i'r ddileu'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau). Er hwylustod, ymgorfforwyd y newidiadau yn yr Amodau. Mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu adolygu'r Amodau Cydnabod fel rhan o'i Strategaeth Reoleiddio ac yn rhagweld newidiadau pellach i adlewyrchu model prosesau Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

Rhan 1 – Y corff dyfarnu

Adran A – Llywodraethu

Amod A1 – Addasrwydd i barhau i gael ei gydnabod

Addasrwydd i barhau i gael ei gydnabod

A1.1 Ni ddylai corff dyfarnu, drwy unrhyw weithred neu anwaith sy'n cael effaith andwyol neu sy'n debygol o gael effaith andwyol, ei wneud ei hun yn anaddas i barhau i gael ei gydnabod ar gyfer dyfarnu cymhwyster perthnasol.

A1.2 At y dibenion hyn, gall gweithred neu anwaith gynnwys yn benodol un sy'n arwain at y corff dyfarnu:

(a) yn cael ei gollfarnu o drosedd;

(b) yn cael ei ddyfarnu'n euog o dorri unrhyw un o ddarpariaethau Cyfraith Cystadleuaeth, Cyfraith Cydraddoldeb neu Gyfraith Diogelu Data gan lys neu unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu lywodraethol;

(c) yn cael ei ddyfarnu'n euog o dorri unrhyw ddeddfwriaeth arall neu unrhyw rwymedigaeth reoleiddiol arall y mae'n ddarostyngedig iddi gan lys neu unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu lywodraethol, neu

(d) yn mynd yn drethdalwr neu'n destun proses ailstrwythuro ariannol corfforaethol.

Cyrff dyfarnu anweithredol

A1.3 Rhaid i gorff dyfarnu:

(a) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd unrhyw gyfnod o ddwy flynedd yn mynd heibio pan na fydd yn dyfarnu cymhwyster yn unol â'i Amodau Cydnabod.

Sicrhau addasrwydd uwch swyddogion

A1.4 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod pob un o'i Uwch Swyddogion bob amser yn unigolyn sy'n addas i gyflawni'r rôl honno mewn corff dyfarnu a gydnabyddir ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau perthnasol.

A1.5 At y dibenion hyn, gall uwch swyddog yn benodol fod yn anaddas ar gyfer y rôl honno oherwydd:

(a) unrhyw gollfarnau troseddol sydd ganddo;

(b) unrhyw ddyfarniad gan lys neu unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu lywodraethol ei fod wedi torri un o ddarpariaethau unrhyw ddeddfwriaeth neu unrhyw rwymedigaeth reoleiddiol y mae'n ddarostyngedig iddi;

(c) unrhyw achos methdaliad neu unrhyw drefniadau ariannol unigol y mae'n ddarostyngedig iddynt neu y mae wedi bod yn ddarostyngedig iddynt;

(d) ei fod wedi'i anghymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni neu ddal swydd gyhoeddus

(e) ei fod wedi'i ddyfarnu'n euog o gamymddwyn neu gamweinyddu, mewn perthynas â chymhwyster (p'un a yw'n gymhwyster a reoleiddir neu'n gymhwyster nas rheoleiddir).

Amod A2 – Sefydliad yn yr UE neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop

A2.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod bob amser:

(a) yn preswylio fel arfer yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop, neu

(b) wedi'i sefydlu'n gyfreithiol neu fod ganddo bresenoldeb sylweddol, yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop.

Amod A3 – Mesurau diogelwch o ran newid rheolaeth

Dyletswydd o ran newid rheolaeth

A3.1 Os bydd newid o ran rheolaeth y corff dyfarnu, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) cymryd (a sicrhau y bydd pob person perthnasol arall yn cymryd) pob cam rhesymol i sicrhau na fydd y newid o ran rheolaeth y corff dyfarnu yn cael unrhyw effaith andwyol,

(b) rhoi cynllun ar waith er mwyn sicrhau y diogelir buddiannau dysgwyr.

Diffiniad o newid rheolaeth

A3.2 At ddibenion yr amod hwn, mae newid o ran rheolaeth corff dyfarnu yn digwydd pan fydd:

(a) person yn cael rheolaeth dros y corff dyfarnu nad oedd yn ei reoli yn union cyn iddo wneud hynny, neu

(b) y corff dyfarnu'n uno ag unrhyw berson.

A3.3 Os yw'r corff dyfarnu'n gwmni, bydd is-adrannau (2), (3) a (4) o adran 450 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 yn gymwys at ddiben penderfynu a yw person yn rheoli'r corff dyfarnu neu a oedd yn ei reoli.

Amod A4 – Gwrthdaro buddiannau

Diffiniad o wrthdaro buddiannau

A4.1 At ddibenion yr amod hwn, mae gwrthdaro buddiannau yn bodoli mewn perthynas â chorff dyfarnu o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) pe gallai ei fuddiannau mewn unrhyw weithgaredd a gynhelir ganddo, neu ar ei ran, neu gan aelod o'i grŵp ei arwain i weithredu'n groes i'w fuddiannau wrth ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod;

(b) os bydd gan berson sy'n ymwneud â datblygu, cyflenwi neu ddyfarnu cymwysterau gan y corff dyfarnu fuddiannau mewn unrhyw weithgaredd arall a allai arwain y person hwnnw i weithredu'n groes i'w fuddiannau wrth ddatblygu, darparu neu ddyfarnu'r cyfryw gymwysterau yn unol ag Amodau Cydnabod y corff dyfarnu, neu

(c) byddai sylwedydd hyddysg a rhesymol yn dod i'r casgliad bod y naill neu'r llall o'r sefyllfaoedd hyn yn bodoli.

Nodi achosion o wrthdaro buddiannau

A4.2 Rhaid i gorff dyfarnu nodi a monitro'r canlynol –

(a) pob achos o wrthdaro buddiannau sy'n ymwneud ag ef

(b) unrhyw sefyllfa lle y gellir yn rhesymol ragweld y ceir y cyfryw wrthdaro buddiannau yn y dyfodol.

A4.3 Rhaid i gorff dyfarnu greu a chynnal cofnod cyfredol o bob achos o wrthdaro buddiannau sy'n ymwneud ag ef.

Rheoli achosion o wrthdaro buddiannau

A4.4 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd unrhyw achos o wrthdaro buddiannau sy'n ymwneud ag ef yn cael effaith andwyol.

A4.5 Os bydd y cyfryw achos o wrthdaro buddiannau wedi cael effaith andwyol, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i leihau'r effaith andwyol hyd y gellir a'i hunioni.

Buddiannau mewn gwaith asesu

A4.6 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na chaiff unrhyw ran o'r gwaith o asesu dysgwr (gan gynnwys drwy gymedroli) ei wneud gan unrhyw berson sydd â buddiant personol yng nghanlyniad yr asesiad.

A4.7 Os na ellir osgoi asesiad gan y cyfryw berson, ar ôl iddo gymryd pob cyfryw gam rhesymol, rhaid i'r corff dyfarnu wneud trefniadau i berson arall graffu ar y rhan berthnasol o'r asesiad.

Y polisi ysgrifenedig ar wrthdaro buddiannau

A4.8 Rhaid i gorff dyfarnu lunio polisi ysgrifenedig cyfredol ar wrthdaro buddiannau, y mae'n rhaid iddo gynnwys gweithdrefnau ynglŷn â sut mae'r corff dyfarnu yn bwriadu cydymffurfio â gofynion yr amod hwn, cynnal y polisi hwnnw a chydymffurfio ag ef bob amser.

A4.9 Pan fydd Cymwysterau Cymru yn gofyn iddo wneud hynny'n ysgrifenedig, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gyflwyno ei bolisi gwrthdaro buddiannau i Cymwysterau Cymru ar unwaith ac ar ôl hynny mae'n rhaid iddo sicrhau bod y polisi yn

cydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'i hysbysu amdanynt yn ysgrifenedig.

Amod A5 – Argaeledd adnoddau a threfniadau digonol

Sicrhau'r gallu i ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau

A5.1 Rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) sicrhau y gall ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau y mae'n eu darparu, neu y mae'n bwriadu eu darparu, yn unol â'i Amodau Cydnabod

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei fod yn datblygu, yn cyflenwi ac yn dyfarnu'r cymwysterau hynny yn effeithlon.

A5.2 At y dibenion hyn, mae'n rhaid i gorff dyfarnu sefydlu a chynnal:

(a) trefniadau a fydd yn sicrhau ei fod yn cadw gweithlu cymwys o faint priodol bob amser;

(b) trefniadau ar gyfer cadw data a fydd yn sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael bob amser;

(c) trefniadau a fydd yn sicrhau bod digon o gyfarpar a chymorth technegol ar gael bob amser;

(d) adnoddau rheoli priodol;

(e) systemau cynllunio a systemau rheolaeth fewnol priodol.

A5.3 At y dibenion hyn, rhaid i gorff dyfarnu hefyd wneud y canlynol:

(a) adolygu ei ofynion parhaus o ran adnoddau yn rheolaidd a gwneud newidiadau priodol er mwyn ystyried canfyddiadau pob adolygiad

(b) cynllunio unrhyw ddatblygiadau newydd y mae'n bwriadu eu cyflwyno'n ddigonol a neilltuo digon o adnoddau er mwyn sicrhau y caiff y cyfryw ddatblygiadau eu cyflwyno'n effeithiol.

Sicrhau hyfywedd ariannol

A5.4 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y bydd digon o adnoddau ariannol a chyfleusterau ar gael iddo allu datblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod nes y bydd pob dysgwr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster a ddarperir ganddo wedi cael cyfle i gwblhau'r cymhwyster hwnnw.

Amod 6 - Nodi a rheoli risgiau

Nodi risgiau

A6.1 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i nodi'r risg y bydd unrhyw ddigwyddiad a allai gael effaith andwyol yn codi.

Atal digwyddiadau neu leihau eu heffaith

A6.2 Pan nodir y cyfryw risg, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:

(a) atal y digwyddiad rhag codi neu, os na ellir ei atal, leihau'r risg y bydd y digwyddiad hwnnw'n codi hyd y gellir

(b) atal unrhyw effaith andwyol y gallai'r digwyddiad ei chael pe bai'n codi neu, os na ellir ei atal, leihau'r effaith andwyol hyd y gellir.

Cynllun wrth gefn

A6.3 Rhaid i gorff dyfarnu lunio a chynnal cynllun wrth gefn ysgrifenedig cyfredol a chydymffurfio ag ef bob amser.

A6.4 Rhaid i gynllun wrth gefn fod yn ddigon manwl ac o ansawdd digonol er mwyn galluogi'r corff dyfarnu i leihau, hyd y gellir, effaith andwyol unrhyw ddigwyddiad y mae'r corff dyfarnu wedi nodi bod risg y gallai godi.

Amod A7 – Rheoli digwyddiadau

A7.1 Os ceir unrhyw ddigwyddiad a allai gael effaith andwyol, rhaid i gorff dyfarnu (p'un a yw wedi nodi risg y bydd y digwyddiad hwnnw yn codi yn flaenorol ai peidio) yn cymryd pob cam rhesymol ar unwaith i wneud y canlynol:

(a) atal yr effaith andwyol ac, os ceir unrhyw effaith andwyol, ei lleihau hyd y gellir a'i hunioni, a

(b) rhoi blaenoriaeth i ddarparu asesiadau sy'n gwahaniaethu'n fanwl gywir rhwng dysgwyr ar sail y lefel o gyrhaeddiad a ddangoswyd ganddynt a dyfarnu cymwysterau yn gywir ac yn amserol.

Amod A8 – Camymddwyn a chamweinyddu

Atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu

A8.1 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu wrth ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau y mae'n eu darparu neu y mae'n bwriadu eu darparu.

Ymchwilio i achosion o gamymddwyn a chamweinyddu a rheoli eu heffaith

A8.2 Os bydd corff dyfarnu yn amau, neu os bydd unrhyw berson arall yn honni, fod unrhyw gyfryw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, a bod sail resymol dros yr amheuaeth honno neu'r honiad hwnnw, rhaid i'r corff dyfarnu wneud y canlynol -

(a) hyd y gellir, cadarnhau p'un a yw'r achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, a

(b) cymryd pob cam rhesymol ar unwaith i atal unrhyw effaith andwyol y gallai'r achos o gamymddwyn neu gamweinyddu ei chael ac, os bydd yn cael unrhyw gyfryw effaith andwyol, ei lleihau hyd y gellir a'i hunioni.

Gweithdrefnau sy'n ymwneud â chamymddwyn a chamweinyddu

A8.3 At ddibenion yr amod hwn, rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol -

(a) sefydlu a chynnal gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer ymchwilio i achosion a amheuir neu a honnir o gamymddwyn neu gamweinyddu a chydymffurfio â hwy bob amser

(b) sicrhau y caiff y cyfryw ymchwiliadau eu cynnal yn drylwyr ac yn effeithiol gan bersonau cymwys nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yn eu canlyniad.

A8.4 Os bydd canolfan yn cyflawni unrhyw ran o'r broses o gyflenwi cymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y ganolfan honno ar gyfer atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu ac ymchwilio iddynt, yn barhaus.

A8.5 Ar ôl cael cais gan y cyfryw ganolfan, rhaid i gorff dyfarnu roi canllawiau i'r ganolfan ar sut i atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu, ymchwilio iddynt ac ymdrin â hwy.

Ymdrin ag achosion o gamymddwyn a chamweinyddu

A8.6 Os bydd corff dyfarnu yn cadarnhau bod unrhyw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd wrth ddatblygu, cyflenwi neu ddyfarnu cymwysterau y mae'n eu darparu, neu'n bwriadu eu darparu, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol ar unwaith i wneud y canlynol:

(a) atal yr achos hwnnw o gamymddwyn neu gamweinyddu rhag digwydd eto

(b) cymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol sy'n gymesur â difrifoldeb a chwmpas y digwyddiad neu geisio cydweithrediad trydydd partïon i gymryd y cyfryw gamau.

A8.7 Os bydd gan gorff dyfarnu le i gredu y gallai achos o gamymddwyn neu gamweinyddu sydd wedi digwydd, neu unrhyw ddigwyddiad cysylltiedig:

(a) effeithio ar ganolfan sy'n cyflawni unrhyw ran o'r broses o gyflenwi cymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu, rhaid iddo roi gwybod i'r ganolfan honno;

(b) effeithio ar gorff dyfarnu arall, rhaid iddo roi gwybod i'r corff dyfarnu hwnnw.

Adran B – Y corff dyfarnu a Cymwysterau Cymru

Amod B1 – Rôl y swyddog cyfrifol

Penodi swyddog cyfrifol

B1.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unigolyn bob amser wedi'i benodi i weithredu fel ei swyddog cyfrifol.

B1.2 Rhaid i'r corff dyfarnu sicrhau y caiff Cymwysterau Cymru ei hysbysu'n ysgrifenedig am enw'r unigolyn a benodir o bryd i'w gilydd i weithredu fel ei swyddog cyfrifol.

Rôl y swyddog cyfrifol

B1.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ei swyddog cyfrifol yn gwasanaethu fel y man cyswllt awdurdodol ar gyfer Cymwysterau Cymru mewn perthynas â phob gweithgaredd a gynhelir gan y corff dyfarnu sydd o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys yn benodol:

(a) unrhyw faterion sy'n ymwneud â'i gydymffurfiaeth â'i Amodau Cydnabod;

(b) ei allu i ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau yn effeithlon;

(c) safonau'r cymwysterau y mae'n eu darparu, neu'n bwriadu eu darparu;

(d) unrhyw faterion a allai effeithio ar hyder y cyhoedd mewn cymwysterau;

(e) hygyrchedd cymwysterau a ddarperir ganddo, gan gynnwys ei gydymffurfiaeth â Chyfraith Cydraddoldeb.

B1.4 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, pan fydd –

(a) ei swyddog cyfrifol yn gwneud datganiad i Cymwysterau Cymru (heblaw am un y mae'r Corff Llywodraethu yn mynnu ei fod yn cael ei wneud), y bydd gan Cymwysterau Cymru yr hawl i ddibynnu ar y datganiad hwnnw fel un sy'n gywir ac a wnaed ar ran y corff dyfarnu,

(b) Cymwysterau Cymru yn rhoi datganiad, cais neu hysbysiad sydd wedi'i gyfeirio at y corff dyfarnu i'w swyddog cyfrifol, y bydd gan

Cymwysterau Cymru yr hawl i drin y datganiad, y cais neu'r hysbysiad hwnnw fel pe bai wedi'i roi i'r corff dyfarnu.

Amod B2 – Y datganiad blynyddol i Cymwysterau Cymru

B2.1 Rhaid i gorff dyfarnu roi datganiad blynyddol i Cymwysterau Cymru yn unol â'r amod hwn.

B2.2 Rhaid i'r datganiad nodi naill ai:

(a) bod y corff dyfarnu'n cydymffurfio'n llawn â'i Amodau Cydnabod ar ddyddiad y datganiad, neu

(b) nad yw'n cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod ar ddyddiad y datganiad. Os felly, mae'n rhaid i'r datganiad ddisgrifio pob achos o fethu â chydymffurfio a'r dyddiad y mae'r corff dyfarnu yn disgwyl unioni'r methiant hwn yn unol ag ef.

B2.3 Rhaid i'r datganiad hefyd nodi naill ai:

(a) nad oes gan y corff dyfarnu unrhyw le i gredu ei bod yn debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw un o'i Amodau Cydnabod yn ystod y cyfnod o 12 mis yn union ar ôl dyddiad y datganiad, neu

(b) fod ganddo le i gredu hynny. Os felly, mae'n rhaid i'r datganiad ddisgrifio pob achos posibl o fethu â chydymffurfio ag un o'i Amodau Cydnabod, y sail dros gredu bod hynny'n debygol o ddigwydd a'r camau sy'n cael eu cymryd gan y corff dyfarnu mewn perthynas ag ef.

B2.4 Rhaid i'r datganiad fod yn gywir a chael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan gorff llywodraethu'r corff dyfarnu, a'i lofnodi gan gadeirydd y corff llywodraethu a'r swyddog cyfrifol.

B2.5 Rhaid i'r datganiad gael ei wneud ar unrhyw ffurf ac ar unrhyw ddyddiad y bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu'r corff dyfarnu amdanynt.

Amod B3 – Hysbysu Cymwysterau Cymru am ddigwyddiadau penodol

Hysbysu Cymwysterau Cymru pan allai digwyddiad gael effaith andwyol

B3.1 Rhaid i gorff dyfarnu hysbysu Cymwysterau Cymru yn brydlon pan fydd ganddynt reswm dros gredu bod unrhyw beth wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd a allai gael effaith andwyol.

Enghreifftiau penodol o ddigwyddiadau a allai gael effaith andwyol

B3.2 At ddibenion yr amod hwn, gall y cyfryw ddigwyddiadau gynnwys yn benodol y rhai lle:

(a) mae gwall sylweddol yn neunyddiau asesu'r corff dyfarnu;

(b) mae deunyddiau asesu wedi'u colli neu wedi'u dwyn neu mae cyfrinachedd wedi'i dorri mewn perthynas â deunyddiau asesu;

(c) na all y corff dyfarnu gyflenwi deunyddiau asesu ar gyfer dyddiad asesu a drefnwyd;

(d) mae methiant wedi bod o ran cynnal asesiad, sy'n golygu ei bod yn bosibl na fydd aseswyr yn gallu gwahaniaethu'n gywir ac yn gyson rhwng y lefelau o gyrhaeddiad a ddangoswyd gan ddysgwyr;

(e) na fydd y corff dyfarnu yn gallu cyhoeddi canlyniadau na dyfarnu cymhwyster erbyn y dyddiad cyhoeddedig;

(f) mae'r corff dyfarnu wedi anfon y canlyniadau neu'r tystysgrifau anghywir;

(g) mae'r corff dyfarnu o'r farn bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, a allai annilysu'r broses o ddyfarnu cymhwyster a ddarperir ganddo neu a allai effeithio ar gorff dyfarnu arall;

(h) mae costau'r corff dyfarnu (am unrhyw reswm, p'un a oedd o dan ei reolaeth neu'r tu allan iddi) wedi cynyddu ac mae'n rhagweld y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn ei ffioedd sydd gryn dipyn yn fwy na chyfradd chwyddiant.

(i) mae'r corff dyfarnu yn cael ei enwi fel parti mewn unrhyw achos troseddol neu sifil neu lle mae'n destun ymchwiliad neu sancsiwn rheoleiddiol gan unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu lywodraethol, neu

(j) mae un o uwch swyddogion y corff dyfarnu yn barti mewn achos troseddol (heblaw am fân droseddau gyrru), lle mae'n destun unrhyw achos anghymhwyso fel cyfarwyddwr cwmni, neu lle mae'n destun achos disgyblu a ddygwyd gan gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu lywodraethol.

Hysbysu am ddigwyddiadau penodol ym mhob achos

B3.3 Rhaid i gorff dyfarnu hysbysu Cymwysterau Cymru ar unwaith os yw'n destun, neu os oes ganddo le i gredu ei fod yn destun:

(a) newid perthnasol yn ei strwythur llywodraethu neu ei statws cyfreithiol;

(b) newid o ran rheolaeth y corff dyfarnu;

(c) proses uno rhyngddo a chorff arall, neu

(d) unrhyw achos o ansolfedd neu fethdaliad.

B3.4 Rhaid i gorff dyfarnu hysbysu Cymwysterau Cymru ar unwaith os yw'n bwriadu darparu cymhwyster sy'n wahanol iawn o ran math neu gynnwys i unrhyw gymhwyster y mae wedi'i ddarparu o'r blaen.

Gofynion pellach o ran amseriad hysbysiadau

B3.5 Pan fydd yn hysbysu Cymwysterau Cymru am ddigwyddiad yn unol â'r amod hwn, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny, rhaid i gorff dyfarnu hefyd hysbysu Cymwysterau Cymru am unrhyw gamau y mae wedi'u cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i atal y digwyddiad rhag cael effaith andwyol neu unioni neu leihau'r effaith andwyol honno os y'i ceir.

B3.6 Ni ddylai corff dyfarnu oedi cyn hysbysu Cymwysterau Cymru am ddigwyddiad yn unol â'r amod hwn am nad oes gwybodaeth berthnasol ar gael, ond rhaid iddo ei hysbysu amdano ar sail yr holl wybodaeth sydd ganddo a rhoi gwybodaeth bellach i Cymwysterau Cymru pan fydd ar gael.

Amod B4 – Hysbysiad i ddarparu gwybodaeth i Cymwysterau Cymru

B4.1 Os bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i gorff dyfarnu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'n gofyn amdani er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â thelerau'r hysbysiad hwnnw.

B4.2 At y dibenion hyn gall hysbysiad a gyflwynir gan Cymwysterau Cymru:

(a) nodi'r terfyn amser ar gyfer darparu'r wybodaeth;

(b) nodi ar ba ffurf y dylid darparu'r wybodaeth;

(c) mynnu bod y wybodaeth yn cael ei hategu gan y cyfryw ddogfennau ategol neu ddata ag y gellir eu disgrifio

(d) mynnu bod corff dyfarnu yn darparu gwybodaeth p'un a yw'r corff dyfarnu eisoes yn meddu ar y wybodaeth honno neu'n gorfod ei chreu neu ei chael.

B4.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddir i Cymwysterau Cymru yn unol â'r amod hwn yn gywir ac yn gyflawn.

Amod B5 – Sylwadau ar gymwysterau

Datganiadau ynghylch cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau a reoleiddir

B5.1 Ni ddylai corff dyfarnu wneud (ac mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd unrhyw berson cysylltiedig yn gwneud) unrhyw ddatganiad (drwy unrhyw weithred neu anwaith) a fyddai'n debygol o arwain defnyddwyr cymwysterau i feddwl bod cymhwyster sydd ar gael ganddo (p'un a gaiff ei reoleiddio ai peidio) yn gymhwyster **Cymeradwy**, yn gymhwyster **Dynodedig** neu'n gymhwyster a reoleiddir pan nad yw'n gymhwyster **Cymeradwy**, nac yn gymhwyster **Dynodedig** nac yn gymhwyster a reoleiddir.

Hysbysebu a hyrwyddo cymwysterau

B5.2 Ni ddylai corff dyfarnu (a rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd unrhyw berson cysylltiedig yn) hysbysebu na hyrwyddo ei gymwysterau mewn modd sy'n debygol o fod yn gamarweiniol i ddefnyddwyr cymwysterau.

Defnyddio logo Cymwysterau Cymru

B5.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y defnydd y mae'n ei wneud o logo Cymwysterau Cymru yn cydymffurfio â gofynion logos a gofynion tystysgrifau a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd.

Amod B6 – Cydweithredu â Cymwysterau Cymru

B6.1 Rhaid i gorff dyfarnu roi i Cymwysterau Cymru bob cyfryw gymorth ag y gall ofyn amdano er mwyn i Cymwysterau Cymru, yn unol â'i swyddogaethau, gynnal ymchwiliad i weithgareddau'r corff dyfarnu hwnnw neu wneud gwaith monitro arall mewn perthynas â hwy.

Amod B7 – Cydymffurfio â dogfennau rheoleiddio

B7.1 Os bydd dogfen reoleiddio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gymryd, neu beidio â chymryd, camau gweithredu, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

B7.2 Os bydd dogfen reoleiddio yn nodi canllawiau neu egwyddorion arfer da mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad ar ran corff dyfarnu, rhaid i'r corff dyfarnu ystyried y canllawiau neu'r egwyddorion hynny cyn iddo ymddwyn yn y fath fodd.

Amod B8 – Cydymffurfio ag ymgymeriadau a wnaed i Cymwysterau Cymru

B8.1 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion unrhyw ymgymeriad perthnasol.

B8.2 At ddibenion yr amod hwn, mae ymgymeriad perthnasol yn ymgymeriad:

(a) a wnaed i Cymwysterau Cymru gan y corff dyfarnu

(b) sy'n ysgrifenedig

(c) sy'n nodi ei fod yn ymgymeriad a wneir yn unol â'r amod hwn.

Adran C – Trydydd partïon

Amod C1 – Trefniadau gyda thrydydd partïon

C1.1 Os bydd corff dyfarnu yn trefnu i drydydd parti gyflawni, ar ei ran, unrhyw ran o'r broses o ddatblygu, cyflenwi neu ddyfarnu cymwysterau a ddarperir gan y corff dyfarnu, neu y mae'n bwriadu eu darparu, rhaid i'r corff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) sicrhau bod y trefniadau y mae'n eu sefydlu gyda'r trydydd parti yn galluogi'r corff dyfarnu i ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod

(b) monitro a gorfodi'r cyfryw drefniadau, lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y gall ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod.

C1.2 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau, wrth wneud y cyfryw drefniadau, nad yw'n gosod gofynion diangen neu ry feichus ar drydydd partïon.

Amod C2 – Trefniadau gyda chanolfannau

C2.1 Os bydd canolfan yn cyflawni unrhyw ran o'r broses o gyflenwi cymhwyster ar ran corff dyfarnu, mae'r amod hwn yn gymwys yn ychwanegol at ofynion Amod C1.

C2.2 Pan fydd yr amod yn gymwys, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod trefniadau rhyngddo a'r ganolfan yn cynnwys cytundeb ysgrifenedig y gellir ei orfodi.

C2.3 Rhaid i'r cytundeb hwnnw gynnwys yn benodol ddarpariaethau sy'n gwneud y canlynol –

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gall y corff dyfarnu gydymffurfio â'i Amodau Cydnabod;

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth neu ddogfennau a wneir gan y corff dyfarnu neu Cymwysterau Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan helpu'r corff dyfarnu i gynnal unrhyw weithgareddau monitro rhesymol a helpu Cymwysterau Cymru mewn unrhyw ymchwiliadau a gynhelir at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau;

(d) nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid i'r ganolfan gydymffurfio â hwy er mwyn parhau i gyflenwi'r cymhwyster;

(e) llunio polisi sancsiynau i'w gymhwyso os na fydd y ganolfan yn cydymffurfio â'r gofynion hyn;

(f) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gadw gweithlu cymwys o faint priodol i gyflenwi'r cymhwyster fel sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu;

(g) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan sicrhau bod digon o adnoddau rheoli ac adnoddau eraill ar gael i'w alluogi i gyflenwi'r cymhwyster yn effeithiol ac yn effeithlon fel sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu;

(h) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gyflenwi'r cymhwyster sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu yn unol â Chyfraith Cydraddoldeb;

(i) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan roi gweithdrefn ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion neu broses apelio er budd dysgwyr;

(j) nodi unrhyw brosesau cymedroli y bydd y corff dyfarnu yn eu cynnal neu a gaiff eu cynnal ar ei ran;

(k) nodi proses i'w dilyn pan fydd y ganolfan yn rhoi'r gorau (yn wirfoddol neu'n anwirfoddol) i gyflenwi cymhwyster

(l) ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr os bydd yn rhoi'r gorau i gyflenwi cymhwyster.

C2.4 Os bydd y ganolfan yn rhoi'r gorau i gyflenwi cymhwyster, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr.

C2.5 Rhaid i'r corff dyfarnu, o ran y rhannau o'r broses o gyflenwi cymwysterau a gyflawnir gan y ganolfan;

(a) rhoi arweiniad effeithiol i'r ganolfan

(b) rhoi i'r ganolfan unrhyw wybodaeth ag y gall y ganolfan yn rhesymol ofyn i'r corff dyfarnu ei darparu er mwyn iddi gyflenwi'r cymwysterau hynny.

Amod C3 - Trefniadau gyda chyhoeddwyr

C3.1 Os bydd gan y corff dyfarnu broses gymeradwyo ar waith rhaid i'r corff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd y broses gymeradwyo yn cael effaith andwyol

(b) cyhoeddi'r meini prawf a ddefnyddir ganddo i benderfynu p'un a ddylai gymeradwyo adnodd penodol ai peidio.

C3.2 At ddibenion yr amod hwn, mae ‘proses gymeradwyo’ yn broses a ddefnyddir gan y corff dyfarnu i gymeradwyo adnoddau y bwriedir iddynt helpu i baratoi dysgwyr ac unigolion sy'n debygol o ddod yn ddysgwyr ar gyfer asesiadau ar gyfer cymhwyster a ddarperir ganddo neu y mae'n bwriadu ei ddarparu.

Rhan 2 – Y cymhwyster a reoleiddir

Adran D – Gofynion cyffredinol ar gyfer cymwysterau a reoleiddir

Amod D1 – Addasrwydd cymwysterau at y diben

D1.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod pob cymhwyster a ddarperir ganddo yn addas at y diben.

D1.2 Dim ond os bydd cymhwyster yn bodloni gofynion

(a) dilysrwydd

(b) dibynadwyedd

(c) cymaroldeb

(d) hydrinedd

(e) lleihau tuedd

hyd y gellir, y bydd y cymhwyster hwnnw yn addas at y diben.

D1.3 Mewn unrhyw achos os bydd gwrthdaro rhwng dau neu fwy o'r gofynion hyn, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau cydbwysedd rhwng y gofynion hynny:

(a) sy'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod,

(b) sydd, yn wrthrychol, yn sicrhau'r cydbwysedd gorau o ran y cymhwyster penodol.

Amod D2 – Hygyrchedd cymwysterau

D2.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Cyfraith Cydraddoldeb mewn perthynas â phob un o'r cymwysterau a ddarperir ganddo.

D2.2 Rhaid i gorff dyfarnu fonitro cymwysterau a ddarperir ganddo i weld a oes unrhyw nodwedd a allai roi grŵp o ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd benodol o dan anfantais.

D2.3 Pan fydd corff dyfarnu wedi nodi'r cyfryw nodwedd, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) dileu unrhyw anfantais na ellir ei chyfiawnhau

(b) cadw cofnod o unrhyw anfantais y mae'n credu y gellir ei chyfiawnhau gan nodi'r rhesymau pam y gellir cyfiawnhau'r anfantais, yn ei farn ef.

Amod D3 – Adolygu'r dull gweithredu

Adolygu'r dull gweithredu

D3.1 Rhaid i gorff dyfarnu adolygu ei ddull o ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau yn rheolaidd ac mae'n rhaid iddo ei wella lle y bo angen, er mwyn iddo sicrhau ei hun bod ei ddull gweithredu bob amser yn briodol.

Tystiolaeth i lywio'r dull gweithredu

D3.2 Rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol –

(a) rhoi sylw dyledus i'r holl wybodaeth, sylwadau a chwynion a geir gan ddefnyddwyr cymwysterau mewn perthynas â datblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau

(b) nodi unrhyw dystiolaeth gredadwy sy'n awgrymu bod angen newid ei ddull o ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau, a rhoi sylw dyledus i'r dystiolaeth honno, er mwyn sicrhau bod ei ddull gweithredu yn parhau i fod yn briodol.

D3.3 Os bydd digwyddiad sy'n ymwneud â chorff dyfarnu (neu ddigwyddiad y mae'n ymwybodol ohono neu y dylai fod yn ymwybodol ohono, sy'n ymwneud ag unrhyw gorff dyfarnu arall) wedi cael effaith andwyol, rhaid i'r corff dyfarnu adolygu, a diwygio lle y bo angen, ei ddull o ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau er mwyn sicrhau bod ei ddull gweithredu yn parhau i fod yn briodol.

Amod D4 – Ymateb i ymholiadau a gweithdrefnau cwyno

Ymateb i ymholiadau gan ddefnyddwyr cymwysterau

D4.1 Rhaid i gorff dyfarnu ateb unrhyw ymholiadau rhesymol a gaiff gan ddefnyddwyr cymwysterau yn gywir, yn llawn ac o fewn cyfnod rhesymol o amser.

D4.2 Nid oes dim yn yr amod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu ddatgelu gwybodaeth pe bai hynny yn torri dyletswydd cyfrinachedd neu unrhyw ddyletswydd gyfreithiol arall.

Gweithdrefnau cwyno

D4.3 Rhaid i gorff dyfarnu lunio, cynnal a chyhoeddi gweithdrefn gwyno ysgrifenedig a chydymffurfio â hi bob amser.

D4.4 Rhaid i'r weithdrefn gwyno gynnwys yn benodol weithdrefnau ac amserlenni ar gyfer:

(a) ymateb i gwynion

(b) ymdrin â phwnc cwynion.

Amod D5 – Cydymffurfiaeth cymwysterau â dogfennau rheoleiddio

D5.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw gymhwyster y mae'n ei ddarparu, neu'n bwriadu ei ddarparu, yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad sy'n ymwneud â'r cymhwyster hwnnw a nodir mewn dogfen reoleiddio.

D5.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu unrhyw gymhwyster y mae'n ei ddarparu, neu'n bwriadu ei ddarparu, ei fod yn ystyried unrhyw ganllawiau ac egwyddorion arfer da sy'n ymwneud â'r cymhwyster hwnnw a nodir mewn dogfen reoleiddio.

Amod D6 – Cydymffurfiaeth unedau a ddatblygwyd gan eraill â dogfennau rheoleiddio

D6.1 Caiff corff dyfarnu ddarparu cymhwyster sy'n defnyddio uned neu reol gyfuno a ddatblygwyd gan berson arall dim ond os bydd yn credu'n rhesymol:

(a) bod yr uned neu'r rheol gyfunol yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â hi a nodir mewn unrhyw ddogfen reoleiddio;

(b) wrth ddatblygu'r uned neu'r rheol gyfuno, fod sylw dyledus wedi'i roi i'r canllawiau ac egwyddorion arfer da a nodir mewn unrhyw ddogfen reoleiddio.

Amod D7 – Rheoli'r newid yn statws cymwysterau neu'r broses o dynnu cymwysterau yn ôl

D7.1 At ddibenion yr amod hwn, mae corff dyfarnu yn newid statws cymhwyster neu'n tynnu cymhwyster yn ôl:

(a) pan fydd yn peidio â chofrestru dysgwyr ar gyfer y cymhwyster;

(b) pan fydd yn peidio â chyflenwi neu ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw i ddysgwyr;

(c) (pan fo cymhwyster yn gymhwyster **Cymeradwy**) pan ddaw ei gymeradwyaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw;

(d) (pan fo cymhwyster yn un **Cymeradwy**) pan fydd yn ildio ei gymeradwyaeth o ran y cymhwyster hwnnw;

(e) (pan fo cymhwyster yn un **Cymeradwy**) pan gaiff ei gymeradwyaeth o ran y cymhwyster hwnnw ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru;

(f) (pan fo cymhwyster yn un **Dynodedig**) pan ellir rhoi trefniadau trosiannol ar waith lle y caiff cymeradwyaeth ei thynnu'n ôl neu y caiff dynodiad ei ddirymu ar y sail bod y cymhwyster dan sylw wedi dod yn gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig;

(g) (pan fo cymhwyster yn un **Dynodedig**) pan gaiff ei ddynodiad ei ddiddymu gan Cymwysterau Cymru o ran y cymhwyster hwnnw;

(h) pan fydd yn ildio ei gydnabyddiaeth o ran y cymhwyster hwnnw, neu

(i) pan gaiff ei gydnabyddiaeth ei thynnu'n ôl o ran y cymhwyster hwnnw.

D7.2 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster neu ei dynnu'n ôl neu os yw'n credu ei bod yn debygol o wneud hynny neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw.

D7.3 Rhaid i gorff dyfarnu roi rhybudd rhesymol i Cymwysterau Cymru ei fod yn bwriadu newid statws cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** neu dynnu cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** yn ôl, a rhaid iddo wneud hynny cyn iddo roi'r wybodaeth honno i unrhyw ddysgwyr, canolfannau neu brynwyr cymwysterau.

D7.4 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig**, neu dynnu cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** yn ôl**,** neu os yw'n ofynnol iddo newid statws cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig**, neu dynnu cymhwyster **Cymeradwy** neu **Ddynodedig** yn ôl, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) mynd ati ar unwaith i lunio cynllun ysgrifenedig, y mae'n rhaid iddo nodi sut y diogelir buddiannau dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, a chynnal y cynllun hwnnw a chydymffurfio ag ef

(b) rhoi gwybodaeth glir a chywir am y penderfyniad i dynnu'r cymhwyster yn ôl i ddysgwyr, canolfannau a phrynwyr cymwysterau y bydd y penderfyniad hwnnw yn effeithio arnynt.

D7.5 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw gynllun a gaiff ei lunio ganddo yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'i hysbysu amdanynt yn ysgrifenedig.

D7.6 At ddibenion yr amod hwn, ar gyfer cymwysterau **Cymeradwy** diffinnir newid mewn statws fel cymhwyster nas **Cymeradwyir** gan Cymwysterau Cymru mwyach ac, ar gyfer cymwysterau **Dynodedig**, fe'i diffinnir fel cymhwyster nas **Dynodir** gan Cymwysterau Cymru mwyach.

Amod D8 – Darparu gwybodaeth er mwyn helpu i ddiwallu anghenion athrawon

D8.1 O ran pob cymhwyster a ddarperir ganddo, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw wybodaeth y gall athro yn rhesymol ofyn i'r corff dyfarnu ei darparu, er mwyn iddo baratoi dysgwyr ac unigolion sy'n debygol o ddod yn ddysgwyr ar gyfer asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwnnw, fod ar gael i'r athro hwnnw.

Amod D9 - Dyfarnu Cymwysterau Cymeradwy y tu allan i Gymru

D9.1 Pan fydd corff dyfarnu yn dyfarnu cymhwyster a **Gymeradwywyd** gan Cymwysterau Cymru i ddysgwyr sy'n cael eu hasesu yn gyfan gwbl neu'n bennaf y tu allan i Gymru, a phan ddefnyddir rhif cymeradwyo cymhwyster a logo Cymwysterau Cymru ar dystysgrifau a deunyddiau eraill, mae'n rhaid i'r dystysgrif cymhwyster a deunyddiau eraill gynnwys y datganiad canlynol "Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio'r cymhwyster hwn pan gaiff ei ddyfarnu i ddysgwyr sy'n cael eu hasesu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru."

D9.2 Pan gaiff data eu defnyddio i ddarparu cyd-destun ystadegol cyfun ar gyfer dyfarnu cymhwyster a **Gymeradwywyd** gan Cymwysterau Cymru, bydd hyn yn seiliedig ar ymgeiswyr sy'n cael eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Adran E – Llunio a datblygu cymwysterau

Amod E1 – Sicrhau bod gan gymwysterau amcanion a'u bod yn cael eu cefnogi

Sicrhau bod gan gymwysterau amcanion

E1.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod gan bob cymhwyster y mae'n ei ddarparu, neu'n bwriadu ei ddarparu:

(a) amcan clir yn unol â'r amod hwn

(b) gan gyflawni'r amcan hwnnw.

E1.2 Rhaid i amcan cymhwyster fod o fudd i ddysgwyr sydd wedi cyrraedd lefel cyrhaeddiad benodedig, a gall gynnwys y canlynol:

(a) paratoi dysgwyr i symud ymlaen i astudio ar gyfer cymhwyster sydd yn yr un maes pwnc ond ar lefel uwch neu sy'n gofyn am wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth fwy penodol;

(b) paratoi dysgwyr i symud ymlaen i astudio ar gyfer cymhwyster mewn maes pwnc arall;

(c) cyflawni rhaglenni dysgu perthnasol;

(d) paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth;

(e) cefnogi rôl yn y gweithlu, neu

(f) rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau twf personol a dysgu.

Sicrhau bod cymwysterau yn cael eu cefnogi

E1.3 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu darparu unrhyw gymhwyster newydd:

(a) rhaid iddo ymgynghori yn gyntaf â defnyddwyr cymwysterau er mwyn canfod a oes cefnogaeth i'r cymhwyster;

(b) dim ond os oes tystiolaeth bod digon o gefnogaeth iddo gan ddefnyddwyr cymwysterau y caiff ddarparu'r cymhwyster.

E1.4 At y dibenion hyn, bydd yr ystyriaethau canlynol yn arbennig o berthnasol wrth benderfynu beth sy'n gyfystyr â digon o gefnogaeth:

(a) amcan y cymhwyster newydd;

(b) a fwriedir i'r cymhwyster newydd hwyluso llwybr dilyniant penodol i ddysgwyr;

(c) nifer y dysgwyr y mae'r corff dyfarnu yn amcangyfrif yn rhesymol eu bod yn debygol o astudio ar gyfer y cymhwyster newydd.

E1.5 At ddibenion yr amod hwn, tybir bod defnyddwyr cymwysterau yn cefnogi cymhwyster newydd os yw'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr cymwysterau hynny o'r farn y byddai'r cymhwyster o fudd i ddysgwyr.

Amod E2 – Gofynion o ran teitlau cymwysterau

E2.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y teitl ar gronfa ddata cymwysterau unrhyw gymhwyster a ddarperir ganddo yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(a) enw'r corff dyfarnu;

(b) lefel y cymhwyster;

(c) y math o gymhwyster (pan fo gan y cymhwyster fath);

(d) disgrifiad cryno o gynnwys y cymhwyster

(e) unrhyw ardystiad sy'n hysbys pan gyflwynir y cymhwyster i'r gronfa ddata cymwysterau.

E2.2 At hynny, rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) sicrhau bod y teitl ar y gronfa ddata cymwysterau yn adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gaiff eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y teitl yn galluogi defnyddwyr cymwysterau i nodi unedau neu gymwysterau tebyg y mae'n eu darparu neu a ddarperir gan gyrff dyfarnu eraill.

E2.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau gan bob cymhwyster y mae'n ei ddarparu, neu'n bwriadu ei ddarparu, deitl y mae'n ei ddefnyddio'n gyson yn ei ddeunydd hysbysebu ac wrth gyfathrebu â defnyddwyr cymwysterau.

E2.4 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau nad yw teitlau cymwysterau y mae'n ei ddarparu, neu'n bwriadu ei ddarparu, yn camarwain defnyddwyr cymwysterau.

E2.5 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn newid y teitl ar y gronfa ddata cymwysterau ar gyfer cymhwyster a ddarperir ganddo pan fydd yn newid lefel a bennwyd i'r cymhwyster hwnnw.

Amod E3 – Cyhoeddi manyleb cymhwyster

E3.1 Cyn darparu cymhwyster penodol am y tro cyntaf, rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi manyleb ar gyfer y cymhwyster hwnnw.

E3.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y fanyleb ar gyfer cymhwyster yn nodi'r canlynol:

(a) amcan y cymhwyster;

(b) unrhyw gymhwyster y dylai dysgwr fod wedi'i gwblhau cyn astudio ar gyfer y cymhwyster;

(c) unrhyw wybodaeth, sgiliau neu ddealltwriaeth y mae'n rhaid i'r dysgwyr feddu arni/arnynt cyn astudio ar gyfer y cymhwyster;

(d) unedau y dylai dysgwyr fod wedi'u cwblhau cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu ac unrhyw lwybrau dewisol;

(e) unrhyw ofynion eraill y dylai dysgwr fod wedi'u bodloni cyn i'r dysgwr gael ei asesu neu cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu;

(f) y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a asesir fel rhan o'r cymhwyster (gan nodi eu cwmpas a'u manylder yn glir);

(g) y dull a ddefnyddir i gynnal unrhyw asesiad ac unrhyw ofynion cysylltiedig sy'n ymwneud ag ef;

(h) y meini prawf ar gyfer mesur lefelau cyrhaeddiad dysgwyr (megis meini prawf asesu neu enghreifftiau o asesiadau);

(i) unrhyw ddeunyddiau asesu enghreifftiol,

(j) unrhyw lefelau cyrhaeddiad penodedig,

(k) os bydd yn ofynnol i'r corff dyfarnu eu pennu o dan Amod Cyffredinol E7 (Cyfanswm Amser Cymhwyso), nifer yr oriau y mae wedi'u pennu i'r cymhwyster hwnnw ar gyfer pob Cyfanswm Amser Cymhwyso a Dysgu dan Arweiniad,

(l) unrhyw werth am gredyd y mae wedi'i bennu i'r cymhwyster hwnnw ac unrhyw Gydran o fewn y cymhwyster hwnnw

(m) lefel neu'r lefelau y mae wedi'i phennu/wedi'u pennu i'r cymhwyster hwnnw ac unrhyw Gydran o fewn y cymhwyster hwnnw.

E3.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod manyleb cymhwyster yn glir ac yn gywir ac yn cyfleu i unrhyw berson rhesymol a hyddysg:

(a) yr hyn y mae'r cymhwyster yn ei ddisgwyl ganddynt o ran pob un o'r manylion sy'n gymwys i'r cymhwyster

(b) sut mae'r cymhwyster yn addas at y diben.

Diwygiadau i'r fanyleb

E3.4 Rhaid i gorff dyfarnu ddiwygio manyleb cymhwyster ar unwaith ar ôl iddo newid:

(a) nifer yr oriau a bennwyd ganddo i Cyfanswm Amser Cymhwyso a Dysgu dan Arweiniad

(b) y lefel neu'r lefelau a bennwyd ganddo i'r cymhwyster hwnnw neu unrhyw Gydran o fewn y Cymhwyster hwnnw, neu

(c) unrhyw werth am gredyd a bennwyd ganddo i'r cymhwyster hwnnw neu unrhyw Gydran o fewn y cymhwyster hwnnw

E3.5 Os bydd corff dyfarnu wedi diwygio manyleb cymhwyster rhaid iddo gyhoeddi'r fanyleb honno fel y'i diwygiwyd.

Cymhwyso

E3.6 Ni fydd amodau E3.2(l), E3.2(m), E3.4 nac E3.5 yn gymwys i gorff dyfarnu tan y cyfryw ddyddiad ag a nodir mewn unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir gan

Cymwysterau Cymru i'r corff dyfarnu o dan y paragraff hwn neu a bennwyd o dan unrhyw gyfryw hysbysiad.

E3.7 Gall unrhyw gyfryw hysbysiad a gyflwynir gan Cymwysterau Cymru:

(a) fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a nodir gan Cymwysterau Cymru (a all gynnwys amodau sy'n gosod gofynion ar gorff dyfarnu ynglŷn â'i ymddygiad cyn y dyddiad a nodir ynddo neu a bennwyd oddi tano).

(b) cael ei gyflwyno i gorff dyfarnu unigol neu unrhyw grŵp o gyrff dyfarnu.

(c) cael ei gyflwyno mewn perthynas ag un neu fwy o gymwysterau neu ddisgrifiadau o gymwysterau.

(d) cael ei amrywio gan Cymwysterau Cymru unrhyw bryd cyn y dyddiad a nodir ynddo neu a bennwyd oddi tano.

E3.8 Os bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno'r cyfryw hysbysiad yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i gorff dyfarnu y cyflwynir yr hysbysiad iddo gydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir arno yn unol â'r amodau hynny.

Amod E4 – Sicrhau bod asesiad yn addas at y diben ac y gellir ei gynnal

E4.1 Wrth lunio asesiad ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu, neu'n bwriadu ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i'w alluogi i gynnal yr asesiad yn effeithiol ac yn effeithlon neu ei fod yn cael yr adnoddau hynny.

E4.2 Wrth lunio'r cyfryw asesiad, rhaid i gorff dyfarnu hefyd sicrhau bod yr asesiad:

(a) yn addas at y diben;

(b) yn gallu cael ei gynnal yn effeithlon;

(c) yn galluogi'r ganolfan i ddatblygu trefniadau cost-effeithiol ar gyfer ei gynnal, gan ddefnyddio dim ond yr adnoddau hynny y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai eu hangen neu a ddarperir gan y corff dyfarnu

(d) yn caniatáu i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, tra'n lleihau'r angen amdanynt;

(e) yn galluogi pob dysgwr i gynhyrchu tystiolaeth y gellir ei dilysu;

(f) yn galluogi dysgwr sydd â'r lefel ofynnol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gyflawni pob lefel cyrhaeddiad benodedig a nodir yn y fanyleb

(g) yn galluogi aseswyr i wahaniaethu'n gywir ac yn gyson rhwng ystod o lefelau cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan ddysgwyr.

Amod E5 – Sicrhau bod cymwysterau yn cydymffurfio â'r amodau

E5.1 Cyn cyflwyno cymhwyster i'w gymeradwyo neu ei ddynodi, rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) adolygu'r cymhwyster hwnnw

(b) sicrhau ei hun bod y cymhwyster yn cydymffurfio â gofynion ei Amodau Cydnabod ac unrhyw feini prawf cymeradwyo perthnasol, gan wneud unrhyw newidiadau i'r cymhwyster sydd eu hangen at y diben hwnnw.

Amod E6 – Cyflwyno cymwysterau i'r Gronfa ddata

E6.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod cymhwyster a gyflwynir ganddo i'r gronfa ddata cymwysterau:

(a) ar ffurf y gellir ei chyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'i diwygio o bryd i'w gilydd,

(b) ond yn cynnwys gwybodaeth gywir,

(c) yn cynnwys yr holl wybodaeth am y cymhwyster y gofynnir amdani ar y ffurflen.

Amod E7 – Cyfanswm Amser Cymhwyso

E7.1 O ran pob cymhwyster y mae'n ei ddarparu neu'n bwriadu ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu pennu i'r cymhwyster hwnnw nifer yr oriau ar gyfer:

(a) Cyfanswm Amser Cymhwyso, a

(b) Dysgu dan Arweiniad.

E7.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod nifer yr oriau a bennir ganddo i gymhwyster ar gyfer Cyfanswm Amser Cymhwyso yn cynnwys nifer yr oriau y mae wedi'u pennu i'r cymhwyster hwnnw ar gyfer Dysgu dan Arweiniad.

E7.3 Wrth bennu Cyfanswm Amser Cymhwyso, rhaid i gorff dyfarnu roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ar gael yn rhesymol i'r corff dyfarnu a chofnodi ei benderfyniad, y sail resymegol a'r dystiolaeth ategol a ddefnyddiwyd i bennu Cyfanswm Amser Cymhwyso i ddechrau ac wedyn adolygu'r penderfyniad.

E7.4 Rhaid i gorff dyfarnu:

(a) adolygu nifer yr oriau y mae wedi'u pennu i bob cymhwyster ar gyfer Cyfanswm Amser Cymhwyso yn ogystal â Dysgu Dan Arweiniad yn rheolaidd.

(b) yn benodol, adolygu nifer yr oriau a bennwyd ar ôl i Cymwysterau Cymru gyhoeddi unrhyw feini prawf TQT, a

(c) newid nifer yr oriau os yw'n briodol.

E7.5 Yn dilyn unrhyw adolygiad gan Cymwysterau Cymru o nifer yr oriau a bennwyd i gymhwyster mewn perthynas â Cyfanswm Amser Cymhwyso neu Dysgu dan Arweiniad, rhaid i gorff dyfarnu newid y nifer honno mewn unrhyw ffordd a fynnir gan Cymwysterau Cymru.

Cymhwyso

E7.6 Ni fydd amodau E7.1 i E7.5 yn gymwys i gorff dyfarnu tan y cyfryw ddyddiad ag a nodir mewn unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir gan Cymwysterau Cymru i'r corff dyfarnu o dan y paragraff hwn neu a bennwyd o dan unrhyw gyfryw hysbysiad.

E7.7 Gall unrhyw gyfryw hysbysiad a gyflwynir gan Cymwysterau Cymru:

(a) fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a nodir gan Cymwysterau Cymru (a all gynnwys amodau sy'n gosod gofynion ar gorff dyfarnu ynglŷn â'i ymddygiad cyn y dyddiad a nodir ynddo neu a bennwyd o dano)

(b) cael ei gyflwyno i gorff dyfarnu unigol neu unrhyw grŵp o gyrff dyfarnu

(c) cael ei gyflwyno mewn perthynas ag un neu fwy o gymwysterau neu ddisgrifiadau o gymwysterau

(d) cael ei amrywio gan Cymwysterau Cymru unrhyw bryd cyn y dyddiad a nodir ynddo neu a bennwyd o dano.

E7.8 Os bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno unrhyw gyfryw hysbysiad yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i gorff dyfarnu y cyflwynir yr hysbysiad iddo gydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir arno yn unol â'r amodau hynny.

Dehongli

E7.9 At ddibenion yr amod hwn, mae cyfeiriadau at 'gymhwyster' yn cyfeirio at y cymhwyster yn ei gyfanrwydd ac nid at unedau unigol.

Amod E8 – Credyd

E8.1 Gall corff dyfarnu bennu gwerth am gredyd i gymhwyster, neu Gydran o fewn cymhwyster, y mae'n ei ddarparu neu'n bwriadu ei ddarparu.

E8.2 Os bydd corff dyfarnu yn pennu gwerth am gredyd i gymhwyster, rhaid i'r gwerth hwnnw gyfateb i un rhan o ddeg o Gyfanswm Amser Cymhwyso a bennwyd i'r cymhwyster hwnnw, wedi'i dalgrynnu i'r cyfranrif agosaf.

E8.3 Os bydd corff dyfarnu yn newid nifer yr oriau a bennwyd ganddo i gymhwyster mewn perthynas ag unrhyw elfen o Gyfanswm Amser Cymhwyso, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) adolygu pob gwerth am gredyd a bennwyd ganddo i'r cymhwyster hwnnw ac unrhyw Gydran o fewn y cymhwyster hwnnw

(b) newid y gwerth hwnnw os yw'n briodol.

Amod E9 – Lefelau Cymwysterau a Chydrannau

E9.1 Rhaid i gorff dyfarnu bennu un neu fwy o lefelau i bob cymhwyster y mae'n ei ddarparu neu'n bwriadu ei ddarparu.

E9.2 Os bydd corff dyfarnu yn pennu gwerth am gredyd i Gydran o fewn cymhwyster y mae'n ei ddarparu neu'n bwriadu ei ddarparu, rhaid iddo bennu lefel i'r Gydran honno.

E9.3 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw ofynion ac ystyried unrhyw ganllawiau a all gael eu cyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd wrth bennu:

(a) lefel i gymhwyster,

(b) mwy nag un lefel i gymhwyster

(c) lefel i Gydran o fewn cymhwyster.

E9.4 Rhaid i gorff dyfarnu:

(a) adolygu pob lefel a bennwyd ganddo i gymhwyster neu Gydran o fewn cymhwyster yn rheolaidd.

(b) Yn benodol, adolygu'r lefel honno ar ôl i Cymwysterau Cymru ddiwygio unrhyw ofynion a gyhoeddwyd o dan yr Amod hwn, ac

(c) Diwygio'r lefel honno os yw'n briodol.

E9.5 Ar ôl i Cymwysterau Cymru adolygu lefel a bennwyd i gymhwyster neu Gydran o fewn cymhwyster rhaid i gorff dyfarnu ddiwygio'r lefel honno mewn unrhyw ffordd a nodir gan Cymwysterau Cymru.

Rheoli'r broses o ddiwygio lefel a bennwyd i gymhwyster

E9.6 Rhaid i gorff dyfarnu hysbysu Cymwysterau Cymru erbyn 31 Rhagfyr yn y flwyddyn honno ei fod yn bwriadu diwygio lefel a bennwyd i gymhwyster a rhaid iddo wneud hynny cyn iddo roi'r wybodaeth honno i unrhyw rai sy'n defnyddio'r cymhwyster hwnnw.

E9.7 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu diwygio lefel a bennwyd i gymhwyster, neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, rhaid iddo naill ai:

(a) Tynnu'r cymhwyster hwnnw yn ôl, neu

(b) Dilyn y broses a nodir yn amodau E9.8 ac E9.9

a rhaid iddo roi rhybudd rhesymol i Cymwysterau Cymru o ba un o'r ddau gam hyn y mae'n bwriadu ei gymryd.

E9.8 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu diwygio lefel a bennwyd i gymhwyster, neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, ac nad yw'n bwriadu tynnu'r cymhwyster hynny'n ôl, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau Dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw;

(b) mynd ati ar unwaith i lunio cynllun diwygio, y mae'n rhaid iddo nodi sut y caiff buddiannau Dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw eu diogelu, cynnal y cynllun hwnnw a chydymffurfio ag ef;

(c) darparu gwybodaeth glir a chywir am y diwygiad i Ddefnyddwyr y cymhwyster hwnnw y mae'r diwygiad yn debygol o effeithio arnynt.

E9.9 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw gynllun diwygio a gaiff ei lunio ganddo yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'i hysbysu amdanynt yn ysgrifenedig.

Amod E10 Cydnabod Dysgu Blaenorol

E10.1 Os bydd gan gorff dyfarnu bolisi ar waith ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) sicrhau bod y polisi sydd ar waith ganddo yn galluogi'r corff dyfarnu i ddyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod,

(b) cyhoeddi'r polisi hwnnw

(c) cydymffurfio â'r polisi hwnnw.

E10.2 At ddibenion yr Amod hwn, mae 'cydnabod dysgu blaenorol' yn cynnwys:

(a) corff dyfarnu yn nodi unrhyw ddysgu a/neu lefelau cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan Ddysgwr:

(i) cyn i'r Dysgwr hwnnw ddechrau astudio ar gyfer cymhwyster y mae'r corff dyfarnu yn ei ddarparu neu'n bwriadu ei ddarparu

(ii) sy'n berthnasol i'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gaiff eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster hwnnw

(b) corff dyfarnu yn cydnabod y dysgu a/neu'r cyrhaeddiad hwnnw drwy newid y gofynion y mae'n rhaid i Ddysgwr eu bodloni cyn i'r Dysgwr gael ei asesu neu cyn i'r cymhwyster hwnnw gael ei ddyfarnu.

Adran F – Darparu cymwysterau i brynwyr

Amod F1 – Gwybodaeth am ffioedd a nodweddion cymwysterau

Darparu gwybodaeth am ffioedd

F1.1 Os bydd corff dyfarnu yn llunio rhestr o ffioedd safonol ar gyfer y cymwysterau y mae'n eu darparu ac unrhyw wasanaethau cysylltiedig, rhaid iddo sicrhau bod y rhestr yn hygyrch i ddarpar brynwyr, o leiaf drwy:

(a) sicrhau bod y rhestr ar gael ar y rhyngrwyd, yn benodol drwy hyperddolen iddi a osodir ar y gronfa ddata cymwysterau, neu

(b) rhoi copi o'r rhestr i ddarpar brynwyr.

F1.2 Os na fydd corff dyfarnu yn llunio'r cyfryw restr, os gofynnir iddo wneud hynny, rhaid iddo roi'r canlynol i ddarpar brynwr:

(a) gwybodaeth am ei ffioedd ar gyfer y cymwysterau a'r gwasanaethau hynny, neu

(b) os na ellir nodi'n union beth yw'r ffioedd hynny, datganiad o'r dull a ddefnyddir ganddo i gyfrifo ei ffioedd neu amcangyfrif eithaf manwl o'r pris y byddai'n rhaid iddo ei dalu.

F1.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, ym mhob achos, fod ganddo strwythurau prisio ar waith a fyddai'n glir i'r prynwr rhesymol.

F1.4 Os bydd corff dyfarnu yn darparu unrhyw wybodaeth am ei ffioedd neu'r dull a ddefnyddir i'w cyfrifo, rhaid iddo ddarparu gwybodaeth am brif nodweddion y cymwysterau a'r gwasanaethau cysylltiedig y mae'r ffioedd yn ymwneud â hwy ar yr un pryd, oni fydd hyn eisoes yn glir o'r cyd-destun.

Darparu gwybodaeth am ffioedd er mwyn bodloni gofynion cynllunio prynwyr

F1.5 Os bydd corff dyfarnu yn darparu unrhyw wybodaeth am ei ffioedd neu'r dull a ddefnyddir i'w cyfrifo, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny yn ddigon cynnar cyn yr adeg y bydd y cymwysterau y mae'r ffioedd hynny yn ymwneud â hwy yn cael eu darparu i ddysgwyr er mwyn bodloni gofynion cynllunio rhesymol darpar brynwyr.

F1.6 Os na ellir darparu'r cyfryw wybodaeth yn unol â'r amserlen hon, rhaid i'r corff dyfarnu, yn lle hynny, ddarparu digon o wybodaeth i roi syniad go dda i ddarpar brynwyr o'i ffioedd, ynghyd â datganiad clir i roi gwybod i ddarpar brynwyr mai dangosol yn unig yw'r wybodaeth hon.

Amod F2 – Pecynnu cymwysterau gyda chynhyrchion neu wasanaethau eraill

Pecynnau a gynigir fel opsiwn

F2.1 Os bydd corff dyfarnu yn darparu cymhwyster mewn pecyn gyda chynhyrchion neu wasanaethau eraill ac ar wahân i'r cynhyrchion a'r gwasanaethau eraill hynny, rhaid iddo hysbysu prynwyr, cyn iddynt ei brynu, y gellir prynu'r cymhwyster ar wahân neu mewn pecyn.

Pecynnau a gynigir heb opsiynau amgen

F2.2 Ni ddylai corff dyfarnu ddarparu cymhwyster mewn pecyn ynghyd â chynhyrchion neu wasanaethau eraill oni fydd yn darparu'r cymhwyster hwnnw heb gynhyrchion neu wasanaethau eraill, ac eithrio pan fydd:

(a) o bryd i'w gilydd yn ceisio sylwadau gan brynwyr ynghylch a yw'n briodol pecynnu'r cymhwyster gyda'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau penodol

(b) yn dod i'r casgliad yn rhesymol ei bod yn briodol iddo barhau i ddarparu'r pecyn.

Amod F3 – Anfonebu

Anfonebu prynwyr

F3.1 Rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) sicrhau y caiff eu hanfonebau mewn perthynas â darparu cymwysterau eu hanfon yn amserol

(b) darparu dadansoddiad eithaf manwl o'i ffioedd ar ôl cael cais gan brynwr.

Y polisi ysgrifenedig ar anfonebu

F3.2 Rhaid i gorff dyfarnu lunio, cynnal a chyhoeddi polisi ysgrifenedig ar anfonebu a chydymffurfio ag ef.

F3.3 Rhaid i'r polisi nodi'r prosesau i'w dilyn gan y corff dyfarnu mewn perthynas ag anfon, talu a chadw anfonebau a chynnwys anfonebau.

Adran G – Gosod a chynnal yr asesiad

Amod G1 – Gosod yr asesiad

G1.1 Wrth osod asesiad ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod cynnwys yr asesiad:

(a) yn addas at y diben;

(b) yn briodol ar gyfer y dull asesu a ddewiswyd

(c) yn gyson â manyleb y cymhwyster hwnnw.

G1.2 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y galw am asesiad ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu yn gyson:

(a) ar draws pob opsiwn o ran tasgau y gall dysgwr eu cwblhau at ddibenion yr asesiad;

(b) â'r galw am unrhyw asesiad arall a all gael ei gwblhau gan ddysgwr, yn lle'r cymhwyster, at ddibenion y cymhwyster

(c) â'r galw am asesiadau blaenorol ac unrhyw ddeunyddiau asesu enghreifftiol y mae'r corff dyfarnu wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â'r cymhwyster.

G1.3 Rhaid i gorff dyfarnu lunio dogfen ysgrifenedig mewn perthynas ag asesiad sy'n nodi meini prawf clir a diamwys ar gyfer gwahaniaethu rhwng lefelau cyrhaeddiad dysgwyr.

Amod G2 – Iaith yr asesiad

G2.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y caiff pob dysgwr sy'n astudio ar gyfer ei gymwysterau ei asesu:

yn Gymraeg a/neu Saesneg yng Nghymru ac eithrio i'r graddau y mae'r amod hwn yn caniatáu defnyddio iaith arall.

G2.2 Gellir asesu dysgwr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster yn Iaith Arwyddion Prydain lle y'i caniateir gan gorff dyfarnu at ddibenion gwneud addasiad rhesymol.

G2.3 Gellir asesu dysgwr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster mewn unrhyw iaith arall os mai un o brif amcanion y cymhwyster:

(a) yw sicrhau bod y dysgwr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith honno a sgiliau ynddi, neu

(b) cefnogi rôl yn y gweithle, ar yr amod nad oes angen siarad Cymraeg neu Saesneg yn rhugl er mwyn cyflawni'r rôl a gefnogir gan y cymhwyster.

G2.4 Os bydd corff dyfarnu yn darparu cymhwyster mewn mwy nag un iaith, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod asesiadau mewn ieithoedd gwahanol yn sicrhau lefel gyson o alw am ddysgwyr.

Amod G3 – Defnyddio deunyddiau iaith ac ysgogi

G3.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau mai dim ond deunyddiau iaith ac ysgogi priodol a ddefnyddir gan asesiadau ar gyfer cymwysterau y mae'n eu darparu.

G3.2 Mae deunyddiau iaith ac ysgogi yn briodol os ydynt:

(a) yn galluogi dysgwyr i ddangos eu lefel o gyrhaeddiad;

(b) yn gofyn am wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster;

(c) yn glir ac yn ddiamwys (oni bai bod amwysedd yn rhan o'r asesiad)

(d) yn annhebygol o beri tramgwydd diangen i ddysgwyr.

G3.3 Wrth ystyried a yw deunyddiau iaith ac ysgogi ar gyfer asesiad yn briodol, rhaid i gorff dyfarnu ystyried yn benodol:

(a) oedran dysgwyr y gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt astudio ar gyfer y cymhwyster;

(b) lefel y cymhwyster;

(c) amcan y cymhwyster;

(d) y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a asesir ar gyfer y cymhwyster.

G3.4 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oes yr un asesiad ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu yn cynnwys deunyddiau iaith na deunyddiau ysgogi a allai roi grŵp o ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd neu amgylchiad cyffredin – oherwydd y nodwedd honno neu'r amgylchiad hwnnw – o dan anfantais afresymol o ran y lefel o gyrhaeddiad y gallant ei ddangos yn yr asesiad.

Amod G4 – Diogelu cyfrinachedd deunyddiau asesu

G4.1 Pan fo angen sicrhau cyfrinachedd:

(a) cynnwys deunyddiau asesu, neu

(b) gwybodaeth am yr asesiad

er mwyn sicrhau bod cymhwyster y mae corff dyfarnu yn ei wneud, neu'n bwriadu ei wneud, yn adlewyrchu mesur cywir o gyrhaeddiad, rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y diogelir y cyfryw gyfrinachedd

G4.2 Yn benodol, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol –

(a) i sicrhau y caiff y cyfryw gyfrinachedd ei ddiogelu pan fydd y corff dyfarnu hwnnw (neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag ef neu a arferai fod yn gysylltiedig ag ef) yn darparu hyfforddiant neu ddeunyddiau hyfforddi mewn perthynas â'r cyfryw gymhwyster, a

(b) phan fydd pobl yn cadw gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chynnwys deunyddiau asesu neu wybodaeth arall am asesiad cymhwyster ac y byddai datgelu'r cyfryw wybodaeth i athrawon yn torri'r cyfrinachedd y cyfeiriwyd ato yn amod G4.1, gan sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith i sicrhau na chaiff y cyfryw wybodaeth ei datgelu na'r cyfryw gyfrinachedd ei dorri.

G4.3 Rhaid i gorff dyfarnu, o ran unrhyw hyfforddiant y mae'n ei ddarparu i athrawon mewn perthynas â'r cyfryw gymhwyster (ac, mewn perthynas ag unrhyw gyfryw hyfforddiant a ddarperir gan unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag ef) gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:

(a) sicrhau bod yr hyfforddiant ar gael yn rhesymol i bob athro sy'n paratoi dysgwyr, neu unigolion sy'n debygol o ddod yn ddysgwyr, ar gyfer asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwnnw,

(b) hysbysu athrawon bod yr hyfforddiant ar gael, gan gynnwys yn benodol drwy gyhoeddi manylion yr hyfforddiant

(c) cyhoeddi cynnwys unrhyw ddeunyddiau hyfforddi a ddarparwyd i athrawon mewn cysylltiad â'r hyfforddiant, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r hyfforddiant gael ei gynnal.

G4.4 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau'r canlynol –

(a) nad oes unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag ef, neu a oedd yn gysylltiedig ag ef yn flaenorol, ac

(b) yn benodol, nad oes unrhyw athro neu drydydd parti sydd wedi defnyddio deunyddiau asesu,

yn cynnig datgelu gwybodaeth am unrhyw asesiad na chynnwys unrhyw ddeunyddiau asesu os yw'r wybodaeth honno yn gyfrinachol (neu os dywedir neu os awgrymir ei bod yn gyfrinachol).

G4.5 Os bydd corff dyfarnu yn amau bod y cyfryw gyfrinachedd wedi'i dorri (gan gynnwys colli neu ddwyn deunyddiau asesu cyfrinachol) neu os bydd unrhyw berson arall yn honni bod hynny wedi digwydd a bod sail resymol i'r amheuaeth honno neu'r honiad hwnnw, rhaid i'r corff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) ymchwilio i'r achos hwnnw o dorri cyfrinachedd,

(b) sicrhau y caiff y cyfryw ymchwiliad ei gynnal yn drylwyr, yn effeithiol a gan bobl gymwys nad oes ganddynt fuddiant personol yn ei ganlyniad

(c) hyd y gellir, nodi p'un yw'r cyfryw achos o dorri cyfrinachedd wedi digwydd.

Amod G5 – Cofrestru dysgwyr

G5.1 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau:

(a) bod pob dysgwr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster y mae'r corff dyfarnu yn ei ddarparu yn cael ei gofrestru mewn ffordd sy'n golygu bod modd nodi'r dysgwr unigol hwnnw yn glir

(b) os na fydd enw dysgwr wedi'i gadarnhau'n flaenorol i'r corff dyfarnu, na'r ganolfan lle y cynhelir yr asesiad, fod trefniadau ar waith i gadarnhau enw'r dysgwr.

Amod G6 – Trefniadau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol

G6.1 At ddibenion yr amod hwn, mae addasiadau rhesymol yn addasiadau a wneir i asesiad ar gyfer cymhwyster er mwyn galluogi dysgwr anabl i ddangos ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth i'r lefelau o gyrhaeddiad sy'n ofynnol gan fanyleb y cymhwyster hwnnw.

G6.2 Yn unol â chyfraith cydraddoldeb, rhaid i gorff dyfarnu roi trefniadau clir ar waith ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â chymwysterau y mae'n eu darparu.

G6.3 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi manylion ei drefniadau ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol, y mae'n rhaid iddynt gynnwys manylion ynglŷn â'r canlynol:

(a) sut mae dysgwr yn gymwys ar gyfer addasiad rhesymol;

(b) pa addasiad rhesymol a wneir.

Amod G7 – Trefniadau ar gyfer ystyriaeth arbennig

G7.1 At ddibenion yr amod hwn, mae ystyriaeth arbennig yn ystyriaeth a roddir i ddysgwyr sydd wedi profi dros dro:

(a) salwch neu anaf, neu

(b) rhyw ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth y dysgwr,

sydd wedi cael, neu y mae'n eithaf tebygol ei fod wedi cael, effaith berthnasol ar allu'r dysgwr hwnnw i gael ei asesu neu ddangos ei lefel o gyrhaeddiad.

G7.2 Rhaid i gorff dyfarnu roi trefniadau clir ar waith ar gyfer rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr mewn perthynas â chymwysterau y mae'n eu darparu.

G7.3 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi manylion ei drefniadau ar gyfer rhoi ystyriaeth arbennig, y mae'n rhaid iddynt gynnwys manylion ynglŷn â'r canlynol:

(a) sut mae dysgwr yn gymwys i gael ystyriaeth arbennig;

(b) pa ystyriaeth arbennig a roddir.

Amod G8 – Cwblhau'r asesiad o dan yr amodau gofynnol

G8.1 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau, mewn perthynas â chymwysterau y mae'n eu darparu:

(a) fod tystiolaeth a gynhyrchir gan ddysgwr mewn asesiad yn cael ei gynhyrchu gan y dysgwr hwnnw (neu ei bod yn cynnwys tystiolaeth a gynhyrchir gan y dysgwr hwnnw fel cyfraniad at waith grŵp)

(b) phan fo'n ofynnol cwblhau asesiad o dan amodau penodol, fod dysgwyr yn cwblhau'r asesiad o dan yr amodau hynny (ac eithrio pan fydd unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig yn gofyn am amodau amgen).

Amod G9 - Cynnal yr Asesiad

G9.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y caiff pob asesiad ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu ei gynnal yn effeithiol ac yn effeithlon.

G9.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth gynnal pob asesiad ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu, fod yr asesiad:

(a) yn addas at y diben;

(b) yn darparu ar gyfer gwneud Addasiadau Rhesymol, tra'n lleihau'r angen amdanynt;

(c) yn galluogi pob dysgwr i gynhyrchu tystiolaeth y gellir ei dilysu;

(d) yn galluogi dysgwr sydd â'r lefel ofynnol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i gyrraedd pob lefel cyrhaeddiad benodedig a nodir yn y fanyleb;

(e) yn galluogi aseswyr i wahaniaethu'n gywir ac yn gyson rhwng ystod o lefelau cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan ddysgwyr.

G9.3 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth gynnal pob asesiad ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu, fod cynnwys yr asesiad:

(a) yn addas at y diben;

(b) yn briodol ar gyfer y dull asesu a ddewiswyd;

(c) yn gyson â manyleb y cymhwyster hwnnw.

Adran H – O farcio asesiadau i gyhoeddi'r canlyniadau

Amod H1 – Marcio'r asesiad

Marcio

H1.1 Ar gyfer pob cymhwyster y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu roi trefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau, hyd y gellir, fod y meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng perfformiad dysgwyr –

(a) yn cael eu deall gan aseswyr a'u defnyddio'n gywir

(b) yn cael eu defnyddio'n gyson gan aseswyr, waeth pwy yw'r aseswr, y dysgwr neu'r ganolfan.

Opsiynau marcio

H1.2 Os bydd:

(a) corff dyfarnu yn cynnig opsiwn o ran tasgau y gall dysgwr eu cwblhau mewn asesiad neu o ran asesiadau y gall y dysgwr eu cwblhau (gan gynnwys unedau);

(b) y corff dyfarnu yn dod i'r casgliad yn rhesymol fod anghysondeb perthnasol rhwng y galw am ddwy dasg neu ddau asesiad dewisol;

(c) yn debygol y bydd yr anghysondeb hwnnw yn amharu ar grŵp o ddysgwyr

rhaid i'r corff dyfarnu wneud newid rhesymol i'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng perfformiad dysgwyr ar gyfer y dasg neu'r asesiad dewisol er mwyn sicrhau nad amherir ar y grŵp hwnnw o ddysgwyr.

H1.3 Os caiff y cyfryw newid rhesymol ei wneud ar gyfer tasg neu asesiad dewisol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y newid yn cael ei gymhwyso'n gyson wrth farcio pob tasg neu asesiad y mae dysgwr wedi dewis yr opsiwn hwnnw mewn perthynas â hi/ef.

Amod H2 – Cymedroli pan gaiff asesiad ei farcio gan ganolfan

H2.1 Pan gaiff tystiolaeth a gynhyrchir gan ddysgwr mewn asesiad ar gyfer cymhwyster a ddarperir gan gorff dyfarnu ei marcio gan ganolfan, rhaid i'r corff

dyfarnu sicrhau bod ganddo drefniadau clir ac effeithiol ar waith i gymedroli'r asesiad.

H2.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw waith cymedroli a wneir ganddo yn ei alluogi i nodi'n effeithiol:

(a) a yw'r asesiad yn addas at y diben, ac

(b) a yw'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng perfformiad dysgwyr yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn gyson gan aseswyr mewn canolfannau gwahanol, waeth pwy yw'r aseswr, y dysgwr neu'r ganolfan.

H2.3 Rhaid i gorff dyfarnu:

(a) sicrhau bod unrhyw gyfryw waith cymedroli a wneir ganddo yn sicrhau y gall wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r ffordd y mae canolfan yn marcio tystiolaeth a gynhyrchir gan ddysgwr mewn asesiad

(b) gwneud y cyfryw newid, lle bynnag yr ystyria fod ei angen, er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn addas at y diben neu fod y meini prawf ar gyfer gwahaniaethu rhwng perfformiad dysgwyr yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn gyson.

Amod H3 – Monitro'r lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymhwyster

H3.1 Cyn pennu lefel cyrhaeddiad benodedig ar gyfer cymhwyster y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu adolygu'r lefelau cyrhaeddiad penodedig a bennwyd ar gyfer:

(a) y cymhwyster yn flaenorol;

(b) cymwysterau tebyg y mae'n eu darparu;

(c) cymwysterau tebyg y mae'n eu darparu mewn mannau eraill

a rhaid iddo ddefnyddio canlyniadau'r gwaith monitro hwn i nodi achosion pan na fydd y lefel cyrhaeddiad benodedig y mae'n ei phennu ar gyfer y cymhwyster yn hyrwyddo cysondeb wrth fesur lefelau cyrhaeddiad dysgwyr dros amser a rhwng cymwysterau tebyg a hysbysu Cymwysterau Cymru am yr achosion hyn.

Amod H4 – Cymwysterau Cymru yn dyfarnu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymhwyster

H4.1 Os bydd:

(a) corff dyfarnu yn darparu cymhwyster;

(b) o leiaf un corff arall yn darparu cymhwyster y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr cymwysterau yn ystyried ei fod yn cyfateb yn union i'r cymhwyster hwnnw;

(c) pob corff yn nodi'r lefel neu'r lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer y cymhwyster cyfatebol y mae'r naill a'r llall yn ei ddarparu;

(d) Cymwysterau Cymru o'r farn bod lefel cyrhaeddiad benodedig a bennwyd gan gorff dyfarnu yn atal y cymwysterau cyfatebol rhag dangos lefel briodol neu gyson o gyrhaeddiad (gan gynnwys, os bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, dros amser), a

(e) bod Cymwysterau Cymru yn hysbysu corff dyfarnu, yn ysgrifenedig, am ofynion mewn perthynas â lefel cyrhaeddiad benodedig ar gyfer y cymhwyser y mae'n ei ddarparu (naill ai ar gyfer cylch asesu penodol neu yn ystod cyfnod penodol o amser)

rhaid i unrhyw gorff dyfarnu y mae Cymwysterau Cymru wedi'i hysbysu am y cyfryw ofynion sicrhau, cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu ar gyfer y cylch asesu hwnnw neu yn ystod y cyfnod hwnnw, fod y lefel cyrhaeddiad benodedig ar gyfer y cymhwyster yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.

Amod H5 – Rhaid i ganlyniadau ar gyfer cymhwyster fod yn seiliedig ar ddigon o dystiolaeth

H5.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y canlyniad ar gyfer pob asesiad a gyflawnir gan ddysgwr mewn perthynas â chymhwyster y mae'r corff dyfarnu yn ei ddarparu yn adlewyrchu'r lefel o gyrhaeddiad a ddangoswyd gan y dysgwr hwnnw yn yr asesiad.

H5.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y broses o farcio asesiad mewn perthynas â chymhwyster y mae'n ei ddarparu, a'r broses o ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw, yn ystyried yr holl dystiolaeth dderbyniol a gynhyrchir gan ddysgwr fel rhan o'r asesiad hwnnw.

H5.3 Os bydd corff dyfarnu yn pennu rheol o ran ansawdd y dystiolaeth neu'r math o dystiolaeth a gynhyrchir gan ddysgwyr a fydd yn dderbyniol mewn asesiad, rhaid iddo sicrhau:

(a) ei fod yn egluro'r rheol

(b) bod y rheol yn cael ei chymhwyso at bob dysgwr sy'n gwneud yr asesiad (ac eithrio pan fydd unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig yn golygu bod angen ei newid).

H5.4 Os bydd corff dyfarnu yn pennu rheol o ran sut y caiff y marc terfynol ar gyfer cymhwyster ei gyfrifo ar sail marciau o asesiadau gwahanol, rhaid iddo sicrhau:

(a) bod y cymhwyster yn egluro'r rheol

(b) bod y rheol yn cael ei chymhwyso at bob dysgwr sy'n gwneud y cymhwyster (ac eithrio pan fydd unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig yn golygu bod angen ei newid).

Amod H6 –Cyhoeddi'r canlyniadau

H6.1 Rhaid i gorff dyfarnu, mewn perthynas ag unrhyw gymhwyster y mae'n ei ddarparu:

(a) cyhoeddi canlyniadau ar gyfer pob uned a chymhwyster;

(b) cyhoeddi dyddiadau ac amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau hynny;

(c) cyhoeddi canlyniadau sy'n glir ac yn hawdd eu deall gan ddefnyddwyr cymwysterau;

(d) cyhoeddi canlyniadau sy'n adlewyrchu'r broses o farcio asesiadau (gan gynnwys canlyniad unrhyw broses gymedroli ac unrhyw broses sicrhau ansawdd arall);

(e) sicrhau bod canlyniadau yn cael eu cyhoeddi'n amserol

(f) cymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi canlyniadau erbyn unrhyw ddyddiad neu yn unol ag unrhyw amserlen y mae wedi'i gyhoeddi/chyhoeddi ar gyfer gwneud hynny.

Adran I – Apeliadau a thystysgrifau

Amod I1 – Proses apelio

I1.1 Rhaid i gorff dyfarnu sefydlu a chynnal proses apelio mewn perthynas â phob cymhwyster y mae'n ei ddarparu a chydymffurfio â hi a rhaid i'r broses honno ddarparu ar gyfer apelio yn erbyn y canlynol:

(a) canlyniadau asesiadau;

(b) penderfyniadau ynghylch addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig;

(c) penderfyniadau ynghylch unrhyw gamau sydd i'w cymryd yn erbyn dysgwr neu ganolfan yn dilyn ymchwiliad i achos o gamymddwyn neu gamweinyddu.

I1.2 At y dibenion hyn, rhaid i'r broses apelio ddarparu ar gyfer y canlynol:

(a) apelio'n effeithiol yn erbyn canlyniadau ar y sail na chymhwysodd y corff dyfarnu weithdrefnau'n gyson neu na ddilynwyd gweithdrefnau yn gywir nac yn deg;

(b) apelio yn erbyn pob penderfyniad apêl a wneir gan unigolion nad oes ganddynt fuddiant personol yn y penderfyniad;

(c) sicrhau bod pob penderfyniad apêl yn cynnwys o leiaf un gwneuthurwr penderfyniad nad yw'n un o gyflogeion y corff dyfarnu, aseswr sy'n gweithio iddo nac yn unigolyn sy'n gysylltiedig ar ef mewn ffordd arall;

(d) sicrhau mai dim ond pobl gymwys sy'n penderfynu ar apêl;

(e) amserlenni ar gyfer canlyniad apeliadau.

I1.3 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi gwybodaeth am ei broses apelio fel y gellir apelio yn erbyn canlyniadau asesiadau.

I1.4 Os bydd y ffordd y mae proses apelio wedi'i rhoi ar waith yn achos dysgwr yn arwain at gorff dyfarnu yn canfod methiant yn ei broses asesu, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:

(a) nodi unrhyw ddysgwr arall y mae'r methiant wedi effeithio arno;

(b) unioni effaith y methiant neu, os na ellir ei unioni, ei lliniaru hyd y gellir;

(c) sicrhau na fydd y methiant yn digwydd eto yn y dyfodol.

Amod I2 – Cydymffurfio â phroses apelio a chwyno Cymwysterau Cymru

I2.1 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion unrhyw broses apelio a chwyno a sefydlir gan Cymwysterau Cymru ar y ffurf y gall gael ei chyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'i hadolygu o bryd i'w gilydd.

I2.2 Rhaid i gorff dyfarnu roi sylw dyledus i ganlyniad unrhyw gyfryw broses apelio neu gwyno mewn perthynas â chymhwyster y mae'n ei ddarparu.

I2.3 Os bydd y ffordd y mae unrhyw gyfryw broses apelio neu gwyno wedi'i rhoi ar waith yn achos dysgwr yn arwain at gorff dyfarnu yn canfod methiant yn ei broses asesu, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:

(a) nodi unrhyw ddysgwr arall y mae'r methiant hwnnw wedi effeithio arno;

(b) unioni effaith y methiant neu, os na ellir ei unioni, ei lliniaru hyd y gellir;

(c) sicrhau na fydd y methiant yn digwydd eto yn y dyfodol.

I2.4 Os bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu corff dyfarnu am fethiant sydd wedi'i ganfod ym mhroses asesu corff dyfarnu arall, rhaid i'r corff dyfarnu gynnal adolygiad i weld a allai methiant tebyg effeithio ar ei broses asesu ei hun.

I2.5 Os bydd y corff dyfarnu yn nodi'r cyfryw fethiant posibl, yn dilyn adolygiad, rhaid iddo gymryd yr un cam â phe bai methiant wedi'i ganfod mewn perthynas ag ef yn sgil rhoi proses apelio a chwyno Cymwysterau Cymru ar waith.

Amod I3 – Dyluniad a chynnwys tystysgrifau

Dyluniad tystysgrifau

I3.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod dyluniad pob tystysgrif mewn perthynas â chymhwyster y mae'n ei ddarparu yn cydymffurfio â gofynion y dystysgrif a all gael ei chyhoeddi gan Cymwysterau Cymru a'i diwygio o bryd i'w gilydd.

I3.1.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod dyluniad a chynhyrchiad pob tystysgrif y mae'n ei chyflwyno mewn perthynas â chymhwyster neu ddyfarniad credyd

sydd wedi'i reoleiddio sydd ar gael ganddo yn cynnwys logo Cymwysterau Cymru wedi'i nodi yn glir ac yn amlwg ar flaen y dystysgrif.

Cynnwys tystysgrifau

I3.2 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau:

(a) bod enw'r dysgwr a theitl y dystysgrif wedi'i nodi'n glir ar bob tystysgrif y mae'n ei chyhoeddi;

(b) bod pob tystysgrif y mae'n ei chyhoeddi yn arddangos teitl y cymhwyster fel y mae'n ymddangos ar y gronfa ddata cymwysterau (ac unrhyw ardystiad sy'n hysbys ar ôl i'r cymhwyster gael ei gyflwyno i'r gronfa ddata cymwysterau) yn glir ac nad yw'n cynnwys unrhyw deitl arall ar gyfer y cymhwyster.

I3.3 Os bydd corff dyfarnu yn cyhoeddi unrhyw dystysgrif amnewid, rhaid iddo sicrhau ei bod yn gwbl amlwg bod y dystysgrif yn un sydd wedi'i amnewid.

I3.4 Os bydd corff dyfarnu yn cyhoeddi tystysgrif mewn perthynas â chymhwyster:

(a) a bod yr asesiad o'r cymhwyster wedi'i gynnal mewn iaith heblaw Cymraeg a/neu Saesneg;

(b) ac nad amcan y cymhwyster oedd i'r dysgwr feithrin sgiliau yn yr iaith honno na meithrin gwybodaeth na dealltwriaeth ohoni

rhaid i'r corff dyfarnu sicrhau bod iaith yr asesiad wedi'i nodi'n glir ar y dystysgrif.

Amod I4 – Cyhoeddi tystysgrifau a thystysgrifau amnewid

I4.1 Mewn perthynas â chymwysterau y mae'n eu darparu, rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol:

(a) cyhoeddi'r dyddiadau neu'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyhoeddi tystysgrifau;

(b) sicrhau y caiff tystysgrifau eu cyhoeddi'n amserol;

(c) sicrhau mai dim ond tystysgrifau clir y gall defnyddwyr cymwysterau eu deall yn hawdd a gyhoeddir ganddo;

(d) sicrhau mai dim ond tystysgrifau cywir a chyflawn sy'n adlewyrchu canlyniadau cywir a chyflawn a gyhoeddir ganddo;

(e) cadw cofnod o bob tystysgrif a thystysgrif amnewid a gyhoeddir ganddo;

(f) peidio â chynnwys cymhwyster nad yw'n gymhwyster a reoleiddir ar dystysgrif sy'n cynnwys cymwysterau a reoleiddir.

I4.2 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol, gan gynnwys rhoi gweithdrefnau ar waith, er mwyn sicrhau:

(a) ei fod yn anfon tystysgrif neu unrhyw dystysgrif amnewid at unrhyw ddysgwr y mae ganddo hawl ddilys i gael y dystysgrif neu'r dystysgrif amnewid;

(b) nad yw'n anfon unrhyw dystysgrif at ddysgwr nad oes ganddo hawl ddilys i gael y dystysgrif honno;

(c) ei fod yn dirymu unrhyw dystysgrif os yw'r canlyniad ar y dystysgrif yn annilys oherwydd camymddwyn neu gamweinyddu neu os datgelir ei fod yn anghywir o ganlyniad i broses apelio.

(d) bod tystysgrifau a thystysgrifau amnewid yn cael eu cyhoeddi ganddo erbyn unrhyw ddyddiad neu yn unol ag unrhyw amserlen a gyhoeddir ganddo mewn perthynas â'r cyhoeddi.

Adran J – Dehongli a diffiniadau

Amod J1 – Dehongli a diffiniadau

Dehongli

J1.1 Yn yr amodau hyn, bydd y rheolau dehongli canlynol yn gymwys.

J1.2 Oni fydd y cyd-destun yn awgrymu fel arall, yn yr amodau hyn:

(a) dylid darllen geiriau gwrywaidd fel petaent yn cynnwys y benywaidd (ac fel arall);

(b) dylid darllen geiriau yn yr unigol fel petaent yn cynnwys y lluosog (ac fel arall);

(c) dylid darllen cyfeiriadau at 'it' yn Saesneg fel petaent yn cynnwys cyfeiriadau at y gwrywaidd a'r benywaidd (ac fel arall);

(d) mae'r geiriau 'gan gynnwys' ac 'yn benodol' yn nodi rhestr o enghreifftiau ac ni ddylid eu darllen fel petaent yn cyfyngu ar gwmpas y geiriau sy'n eu rhagflaenu;

(e) mae cyfeiriadau at 'berson' yn cynnwys unrhyw gorff o bersonau, p'un a yw'n un corfforaethol neu anghorfforedig;

(f) mae 'corff dyfarnu' yn cyfeirio at gorff dyfarnu a gydnabyddir yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015;

(g) mae 'cymhwyster perthnasol' yn cyfeirio at unrhyw gymhwyster y cydnabyddir y corff dyfarnu perthnasol ar ei gyfer neu sy'n ateb disgrifiad o gymwysterau y'i cydnabyddir ar eu cyfer;

(h) bydd cyfeiriadau at ddarparu rhywbeth 'yn ysgrifenedig' yn cynnwys ei ddarparu â llaw, drwy'r post, ffacs neu bost electronig neu drwy ei gyflwyno i gronfa ddata cymwysterau;

(i) ystyr 'cymhwyster' yw cymhwyster a reoleiddir (ac mae'n cynnwys unrhyw unedau o fewn y cymhwyster hwnnw);

(j) mae cyfeiriadau at Ddeddf Seneddol neu un o fesurau neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno neu'r mesur hwnnw.

J1.3 Os oes anghysondeb rhwng darpariaeth yn yr amodau hyn a darpariaeth a geir mewn unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn yr amodau hyn, bydd y darpariaethau hyn yn drech ac ni fydd gan y ddogfen arall unrhyw rym nac effaith i raddau'r anghysondeb hwnnw.

J1.4 Er gwybodaeth yn unig mae teitlau a phenawdau yn yr amodau hyn ac ni ddylid eu defnyddio at ddibenion dehongli.

J1.5 Mae person yn gysylltiedig â chorff dyfarnu os yw'r person hwnnw yn ymgymryd neu'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd y mae'r corff dyfarnu yn ymgymryd ag ef.

J1.6 Bydd cwblhau cymhwyster gan ddysgwr yn cynnwys cwblhau unrhyw broses apelio.

J1.7 Os bydd yn ofynnol i gorff dyfarnu gyhoeddi dogfen neu wybodaeth, rhaid i'r ddogfen neu'r wybodaeth honno gael ei chyhoeddi mewn ffordd sydd:

(a) yn glir i'w chynulleidfa fwriadedig;

(b) yn gywir;

(c) yn eithaf hygyrch (gan gynnwys drwy ei chyhoeddi, os yw ar gael, ar wefan y corff dyfarnu).

Diffiniadau

J1.8 Yn yr amodau hyn, bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny):

Addasiad rhesymol	Addasiad o'r math a ddisgrifir yn Amod G6.
Amodau Cydnabod	Yr holl amodau y mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn ddarostyngedig iddynt (gan gynnwys amodau safonol a osodir o dan Atodlen 3 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015).
Amodau	Yr holl amodau cymeradwyo y mae cymhwyster **Cymeradwy**

Cymeradwyo	yn ddarostyngedig iddynt fel y'u gosodir gan adran 22 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Ardystiad	Cyfeiriad yn nheitl cymhwyster sy'n cydnabod bod y dysgwr yn canolbwyntio, neu ei fod wedi canolbwyntio, ar un neu fwy o feysydd penodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n rhan o'r cymhwyster (fel y'u cwmpesir yn nheitl y cymhwyster). (Er enghraifft, yn achos TGAU Celf a Dylunio – Dylunio Tecstilau, mae Dylunio Tecstilau yn un o Ardystiadau TGAU Celf a Dylunio.)
Arweiniad neu Oruchwyliaeth Uniongyrchol	Yr arweiniad neu'r oruchwyliaeth a ddarperir i Ddysgwr gan ddarlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysg neu hyfforddiant priodol arall: **(a)** gyda'r Dysgwr a'r unigolyn hwnnw yn bresennol ar yr un pryd neu **(b)** o bell drwy gyfleuster cyfathrebu electronig cydamserol. At y dibenion hyn, dylid ystyried bod gweithgarwch Goruchwylio arholiadau yn ffurf ar arweiniad neu oruchwyliaeth.
Aseswr	Unigolyn sy'n marcio neu'n adolygu gwaith marcio. Mae hyn yn cynnwys defnyddio set benodol o feini prawf i wneud dyfarniadau ynghylch y lefel o gyrhaeddiad a ddangoswyd gan ddysgwr mewn asesiad.
Athro	Unigolyn sy'n paratoi unrhyw ddysgwr neu unrhyw un sy'n debygol o ddod yn ddysgwr, i gael ei asesu ar gyfer cymhwyster ac sy'n gwneud hynny (a) fel darlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysg neu hyfforddiant priodol arall, neu (b) mewn amgylchiadau lle mae'r dysgwr neu ddarpar ddysgwr yn cael ei baratoi ar gyfer asesiad yn ei gartref.
Canolfan	Corff sy'n cyflenwi asesiad (ac, o bosibl, weithgareddau eraill) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, mae canolfannau yn sefydliadau addysgol, yn ddarparwyr hyfforddiant neu'n gyflogwyr.
Corff llywodraethu	Os yw'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, bwrdd cyfarwyddwyr y corff dyfarnu. Os nad yw'r corff dyfarnu yn

gwmni cyfyngedig, unigolyn neu grŵp o bobl sydd â statws cyfatebol o fewn strwythur sefydliadol y corff dyfarnu.

Cronfa ddata Cymwysterau Y system technoleg gwybodaeth Cymwysterau yng Nghymru (QiW), y darparodd Cymwysterau Cymru ar gyfer cyrff dyfarnu, fel y gellir ei hamrywio a'i disodli o bryd i'w gilydd.

Cydran Rhan ar wahân o gymhwyster:

(a) sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a asesir ar gyfer cymhwyster

(b) sydd â set benodol o feini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng perfformiad Dysgwyr.

Cyfanswm Amser Cymhwyso Nifer yr oriau tybiannol sy'n amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai ei angen er mwyn i ddysgwr gyflawni a dangos y lefel o gyrhaeddiad sydd ei angen ar gyfer dyfarnu cymhwyster. Mae Cyfanswm Amser Cymhwyso yn cynnwys y ddwy elfen ganlynol:

(a) nifer yr oriau y mae corff dyfarnu wedi'u pennu i gymhwyster ar gyfer Dysgu dan Arweiniad, a

(b) amcangyfrif o nifer yr oriau y bydd dysgwr yn rhesymol yn debygol o'u treulio wrth baratoi, astudio neu gymryd rhan mewn unrhyw fath arall o raglen addysgol neu raglen hyfforddi, gan gynnwys asesiadau, sy'n digwydd fel y cyfarwyddir gan ddarlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysg neu hyfforddiant priodol arall ond nid o dan Arweiniad na Goruchwyliaeth Uniongyrchol y cyfryw unigolyn.

Cyfraith cydraddoldeb Deddf Cydraddoldeb 2010, unrhyw ddeddf a oedd yn rhagflaenydd statudol i'r Ddeddf honno, neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth heblaw am Gymru y mae iddi ddiben ac effaith gyfatebol.

Cyfraith cystadlu Deddf Cystadleuaeth 1998, neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth heblaw am Gymru y mae iddi ddiben ac effaith gyfatebol.

Cymaroldeb

Cynhyrchu deilliannau asesu lle gellir cymharu safonau rhwng asesiadau o fewn cymhwyster, rhwng cymwysterau tebyg, gyda chyrff dyfarnu eraill, a thros amser. Os oes ffurfiau cyfatebol ar asesiad mae'n bwysig sicrhau bod modd eu cymharu. Mae dau reswm dros hyn:

(a) gwneud cymariaethau teg rhwng cyrhaeddiad dysgwyr: mae'n amhosibl llunio ffurfiau gwahanol sydd ag union yr un cynnwys a manylebau ystadegol (megis lefel anhawster neu'r hyn a ddisgwylir gan y dysgwr). Felly, mae gofyniad i sicrhau bod modd cymharu deilliannau yn sicrhau yr ystyrir lefel anhawster y prawf neu'r hyn y mae disgwyl i'r dysgwr ei gyflawni wrth bennu safonau fel y gellir cymharu'r dysgwyr sy'n gwneud y gwahanol ffurfiau ar asesiad yn deg.

(b) er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r deilliannau i fesur safonau: rhaid sicrhau bod modd cymharu deilliannau o wahanol ffurfiau ar yr un prawf os bwriedir eu defnyddio i fesur safonau dros amser. Gellir defnyddio barn arbenigwyr a gweithdrefnau ystadegol megis cymharu profion ('test equating') er mwyn sicrhau bod modd cymharu deiliannau o wahanol ffurfiau ar yr un prawf. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw asesiadau mor debyg i'w gilydd fel bod modd eu rhagweld, gan y byddai hyn yn bygwth eu dilysrwydd.

Cymedroli

Y broses ar gyfer monitro'r ffordd y mae asesiadau'n cael eu marcio gan ganolfannau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y safonau gofynnol a newid canlyniadau, lle y bo angen, er mwyn sicrhau bod canlyniadau yn seiliedig ar y safon ofynnol. Mae hyn yn cynnwys gwaith dilysu.

Cymeradwyo

Cymeradwyo fel y'i diffinnir o dan Ran 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Cymwysterau a reoleiddir

Pob cymhwyster nad yw'n radd (p'un a yw'n cymhwyster **Cymeradwy**, yn gymhwyster **Dynodedig** neu'n gymhwyster arall a reoleiddir) a gynigir i'w ddyfarnu gan gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru (oni fydd corff dyfarnu wedi ildio ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, neu os na fydd corff dyfarnu wedi cynnwys y cymhwyster hwnnw o fewn cwmpas ei gydnabyddiaeth drwy hysbysu Llywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015).

Cymwysterau Cymeradwy Cymwysterau a reoleiddir sy'n gymwys i gael eu defnyddio ar raglenni dysgu a gyllidir yn gyhoeddus a **Gymeradwyir** o dan Ran 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, a ddyfarnwyd yng Nghymru ac sydd wedi bodloni meini prawf cymeradwyo. Bydd rhif cymeradwyo a nodwyd wedi'i roi i gymwysterau **Cymeradwy**.

Cymwysterau Dynodedig Cymwysterau a reoleiddir y **Dynodwyd** eu bod yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a gyllidir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, fel y'u diffinnir o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Deddf diogelu data Deddf Diogelu Data 1998, neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth heblaw am Gymru y mae iddi ddiben ac effaith gyfatebol.

Defnyddwyr cymwysterau Pobl sydd â buddiant dilys yn y cymhwyster neu'r math o gymhwyster a ddarperir gan y corff dyfarnu, a all gynnwys:

(a) dysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr;

(b) canolfannau;

(c) cyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr;

(d) sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch;

(e) ysgolion;

(f) adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth;

(g) corff proffesiynol.

Deunyddiau ysgogi Deunyddiau a ddarperir i'r dysgwr cyn yr asesiad, neu ar adeg ei gynnal, sy'n helpu'r dysgwr i ddangos ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth. Gall tasgau mewn asesiad ymwneud yn uniongyrchol â'r deunyddiau a gall dysgwr gyfeirio'n uniongyrchol at y deunyddiau wrth gwblhau'r asesiad. Gall y cyfryw ddeunyddiau gynnwys, er enghraifft, siartiau, diagramau, lluniau, dyfyniadau neu beiriannau.

Dibynadwyedd	Mae a wnelo dibynadwyedd â chysondeb ac felly mae'n ymwneud â'r graddau y mae amrywiol gamau'r broses asesu yn arwain at ddeilliannau a gâi eu dyblygu ped ailadroddwyd yr asesiad. Mae dibynadwyedd yn un o amodau angenrheidiol dilysrwydd, gan nad yw'n bosibl dangos dilysrwydd proses asesu nad yw'n ddibynadwy. Mae amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar ddibynadwyedd asesiad, megis y broses o samplu tasgau asesu ac anghysondeb yng ngwaith marcio aseswyr dynol.
Dilys	Proses lle y cadarnheir bod tystiolaeth a gynhyrchwyd gan ddysgwr mewn asesiad wedi'i gynhyrchu gan y dysgwr hwnnw (neu lle y nodir ac y cadarnheir ei bod yn cynnwys tystiolaeth a gynhyrchwyd gan y dysgwr hwnnw fel cyfraniad at waith grŵp) a'i bod wedi'i chynhyrchu o dan yr amodau gofynnol.
Dilysrwydd	Cymaint y mae'r asesiad yn profi'r pethau y bwriedir iddo eu hasesu. Mae'r defnydd (defnyddiau) a wneir o ddeilliant (deilliannau) asesiad yn ddilys os caiff ei ategu/os cânt eu hategu gan dystiolaeth a damcaniaeth. Er mwyn gwerthuso dibynadwyedd, rhaid datblygu dadl glir i ategu'r dehongliad arfaethedig o'r deilliannau a'r defnydd bwriadedig o'r asesiad. Dylai'r ddadl am ddilysrwydd fod yn seiliedig ar ddatganiadau o'r dehongliad arfaethedig a thystiolaeth ategol a gasglwyd yn ystod pob cam o'r broses asesu.
Dogfen reoleiddiol	Dogfen reoleiddiol, neu ran o ddogfen reoleiddiol, a geir mewn dogfen o'r enw'r 'Rhestr o Ddogfennau Rheoleiddiol', a all gael ei chyhoeddi gan Cymwysterau Cymru ac a all gael ei hamrywio a'i disodli gan Cymwysterau Cymru o bryd i'w gilydd.
Dynodi	Dynodi fel y'i diffinnir o dan Ran 5 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Dysgu Dan Arweiniad	Yr hyn y mae Dysgwr yn ei wneud wrth gael ei ddysgu neu ei gyfarwyddo gan ddarlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysg neu hyfforddiant priodol arall neu, fel arall, sy'n cymryd rhan mewn rhaglen addysgol neu raglen hyfforddi o dan Arweiniad neu Oruchwyliaeth Uniongyrchol y cyfryw unigolyn. At y dibenion hyn caiff y gweithgarwch sy'n gysylltiedig â 'chymryd rhan mewn rhaglen addysgol neu

raglen hyfforddi' ei drin fel petai'n cynnwys y gwaith o asesu'r dysgwr os cynhelir yr asesiad o dan Arweiniad neu Oruchwyliaeth Uniongyrchol darlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysg neu hyfforddiant priodol arall.

Effaith andwyol

Mae gweithred, anwaith, digwyddiad neu amgylchiad yn cael effaith andwyol os yw'n:

(a) achosi niwed i ddysgwyr neu ddarpar ddysgwyr,

neu

(b) cael effaith andwyol ar y canlynol:

(i) gallu'r corff dyfarnu i ddatblygu, cyflenwi neu ddyfarnu cymwysterau yn unol â'i Amodau Cydnabod

(ii) safonau cymwysterau y mae'r corff dyfarnu yn eu darparu neu'n bwriadu eu darparu, neu

(iii) hyder y cyhoedd mewn cymwysterau.

Gofynion o ran Logo(s)

Un neu fwy o ddogfennau sy'n rhagnodi i gorff dyfarnu sut y dylid defnyddio logo(s) Cymwysterau Cymru.

Gofynion tystysgrif

Un neu fwy o ddogfennau sy'n dwyn y teitl hwnnw neu sy'n dwyn teitl sy'n cynnwys y geiriau hynny.

Goruchwylio arholiadau

Pan fo unigolyn priodol yn goruchwylio Dysgwyr sy'n cael eu hasesu ar gyfer cymhwyster ac nad yw'r cyfryw waith goruchwylio yn cynnwys cyrraedd na rhoi unrhyw arweiniad na chyfarwyddyd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i gyfleu cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal yr asesiad neu, fel arall, reoli'r gweithgaredd asesu'n effeithiol.

Grŵp

Os yw'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, grŵp sy'n cynnwys unrhyw gwmni sy'n un o gwmnïau daliannol y corff dyfarnu, yn un o is-gwmnïau'r corff dyfarnu neu'n un o is-gwmnïau cwmni daliannol y corff dyfarnu. Os nad yw'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, unigolyn neu grŵp o bobl sydd â statws cyfatebol.

Gweithlu	Pobl sydd ar gael i weithio (gan gynnwys cyflogeion, gweithwyr a chontractwyr).
Hydrinedd	Mae a wnelo hydrinedd â dichonoldeb cynnal prosesau asesu penodol. Mae proses asesu hydrin yn broses sy'n gosod gofynion rhesymol ar ganolfannau a dysgwyr. Bydd gwerthuso rhesymoldeb y gofynion yn seiliedig ar y graddau y caiff y cyfranogwyr eu hasesu, wedi'i gydbwyso gan ddefnyddioldeb y canlyniadau. Fel gyda'r gofynion eraill (dilysrwydd, dibynadwyedd, cymaroldeb a lleihau tuedd), mae'n rhaid cydbwyso barn am hydrinedd ag ystyriaethau ynghylch y gofynion eraill.
Lefel y galw	Pa mor heriol yw asesiad i'r dysgwr.
Logo Cymwysterau Cymru	Unrhyw logo, dyluniad neu arddull y mae gan Cymwysterau Cymru hawliau eiddo deallusol ynddo/ynddi.
Lleihau tuedd	Nod lleihau tuedd yw sicrhau na fydd trefniadau asesu yn arwain at ddeilliannau afresymol o andwyol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin. Mae lleihau tuedd yn ymwneud â sicrhau tegwch i bob dysgwr ac mae hefyd yn ymwneud i raddau helaeth â dyletswyddau cydraddoldeb statudol.
Meini Prawf Cyfanswm Amser Cymhwyso(neu 'Feini Prawf TQT')	Y meini prawf TQT yw unrhyw feini prawf a anfonir ac a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru at ddibenion penderfynu ar nifer yr oriau o Gyfanswm Amser Cymhwyso y dylai corff dyfarnu eu pennu i gymhwyster. Gellir nodi meini prawf TQT mewn mwy nag un ddogfen.
Meini prawf cymeradwyo	Meini prawf cymeradwyo fel y'u diffinnir o dan adran 20 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.
Nodwedd	Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol
Rhif Cymhwyster	Y rhif y mae Cymwysterau Cymru yn ei roi i'r cymhwyster.

Rheol Gyfuno	Rheol sy'n nodi'r cyfuniad o unedau y gellir eu cymryd er mwyn ffurfio cymhwyster penodol, unrhyw unedau y mae'n rhaid eu cymryd ac unrhyw ofynion cysylltiedig.
Uwch swyddog	Un o gyfarwyddwyr neu uwch swyddogion gweithredol corff dyfarnu neu, os nad yw'r corff dyfarnu yn gwmni cyfyngedig, unigolyn sy'n dal swydd â statws cyfatebol o fewn strwythur sefydliadol y corff dyfarnu.
Ystyriaeth Arbennig	Ystyriaeth arbennig o fath a ddiffinnir yn Amod G7.
Y Ddeddf	Deddf Cymwysterau Cymru 2015